

Presennol

Y Cyngorydd KJ Watts – Cadeirydd

S Aspey	SE Baldwin	TH Beedle	JPD Blundell
NA Burnett	MC Clarke	N Clarke	RJ Collins
HJ David	P Davies	PA Davies	SK Dendy
DK Edwards	J Gebbie	T Giffard	RM Granville
CA Green	DG Howells	A Hussain	RM James
B Jones	M Jones	MJ Kearn	DRW Lewis
JE Lewis	JR McCarthy	D Patel	RL Penhale-Thomas
AA Pucella	JC Radcliffe	KL Rowlands	B Sedgebeer
RMI Shaw	CE Smith	SG Smith	JC Spanswick
RME Stirman	G Thomas	T Thomas	JH Tildesley MBE
E Venables	SR Vidal	MC Voisey	LM Walters
CA Webster	DBF White	PJ White	A Williams
AJ Williams	HM Williams	JE Williams	RE Young

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M Voisey, R Stirman, A Hussain

Swyddogion:

Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Claire Marchant	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Janine Nightingale	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Michael Pitman	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau
Mark Shephard	Prif Weithredwr
Kelly Watson	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

513. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd yr holl Brif Swyddogion presennol fod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 6 yr Agenda, a gadawont y cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried. Y Swyddog o Adnoddau Dynol a oedd yn cyflwyno a'r Swyddogion Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Democrataidd a arhosodd yn y cyfarfod.

514. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Dechreuodd y Maer drwy ddymuno prynhawn da i bawb. Gobeithiai fod pawb a oedd yn bresennol yn ddiogel ac yn iach ac wedi bod yn mwynhau'r tywydd yn nyddiau cynnar y gwanwyn.

Cyhoeddodd nad oedd ganddo unrhyw ddiweddariadau i'r Aelodau o ran ymrwymadau, ond fod ganddo gyhoeddiad i'r rhai a oedd yn bresennol ei nodi. Cyn bo hir, bydd yr Aelodau'n derbyn eu ffurflen datgelu trafodion partïon cysylltiedig blyneddol. Atgoffodd yr holl Gynghorwyr ei bod yn hanfodol iddynt gwblhau'r ffurflen i ddatgan unrhyw drafodion partïon cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, hyd yn oed os nad oes trafodion

i'w nodi ar y ffurflen. Ni ddylid cwblhau'r ffurflenni cyn 31 Mawrth 2021 ond rhaid eu dychwelyd erbyn dydd Gwener 9 Ebrill 2021.

Ychydig ddyddiau'n ôl cafodd y Cynghorydd Altaf Hussain drawiad ar y galon, ond diolch byth, ar ôl ychydig ddyddiau yn yr ysbyty, mae'r Cynghorydd bellach wedi dychwelyd adref lle mae'n gyfforddus ac yn gwella. Roedd y Maer wedi cysylltu ag ef ac roedd yn falch o gyhoeddi bod y Cynghorydd Hussain yn teimlo'n llawer gwell. Roedd y Maer yn siŵr y byddai Aelodau a Swyddogion yn ymuno ag ef i ddymuno gwellhad llawn a buan i'r Cynghorydd Hussain.

Dirprwy Arweinydd

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod amser yn prin i ddinasyddion yr UE sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a bod angen iddynt wneud cais am Gynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Mae'r cynllun, sy'n rhan o system fewnfudo newydd y DU ar ôl Brexit, yn cynnig yr hawl i ddinasyddion 27 aelod-wladwriaeth yr UE barhau i fyw a gweithio yn y DU fel y gwnaethant pan oedd y wlad yn rhan o'r UE.

Mae'n rhad ac am ddim i wneud cais amdano, ond rhaid cyflwyno ceisiadau cyn y dyddiad cau, sef 30 Mehefin.

Hyd yn hyn, mae bron i 2,000 o geisiadau wedi'u prosesu yn y Fwrdeistref Sirol. O'r rheini, mae 1,370 wedi cael statws sefydlog, ac mae 570 wedi cael statws cyn-sefydlog.

Mae'r rhain yn bobl sy'n cyfrannu at y cymunedau y maent yn byw ynddynt, ac yr ydym am iddynt allu parhau i fyw yma, i weithio yma, a chael mynediad at wasanaethau yma.

Gofynnir i Aelodau annog holl ddinasyddion yr UE sy'n byw yn eu wardiau ac sydd wedi ymgartrefu ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i wneud cais i'r cynllun preswyllo cyn y dyddiad cau.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut y gallant wneud hyn ar wefan y Cyngor

Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio

Dywedodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio y gallai cydweithwyr fod wedi gweld y cyhoeddiad diweddar gan y Gweinidog Addysg Kirsty Williams a oedd yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £72 miliwn yn ychwanegol i ysgolion ledled Cymru.

Yr ydym yn dal i aros am gadarnhad cyfran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o hyn, ond mae'r cyllid yn rhan o'r adferiad cyffredinol o'r pandemig, a'i fwriad yw helpu ysgolion wrth iddynt geisio cefnogi dysgwyr.

Bydd yn galluogi'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i barhau i'r flwyddyn academaidd nesaf, a bydd yn darparu adnoddau dysgu ychwanegol a chymorth i ddysgwyr cyfnod sylfaen ar draws ysgolion a lleoliadau gofal plant sy'n darparu addysg gynnar.

Bydd y cyllid hefyd yn galluogi i gymorth gael ei dargedu at ddysgwyr ym mlynnyddoedd 11, 12 a 13 wrth iddynt symud i gam nesaf eu haddysg.

Yn ogystal â hyn, mae bwriad hefyd i gefnogi athrawon dan hyfforddiant drwy eu helpu i ymgymryd â'u cyfnod profiad ymarferol yn yr hydref, i gwblhau eu cymwysterau, ac i ddechrau addysgu llawn amser.

Yn sgil newidiadau mawr y flwyddyn ddiwethaf, a gwaith caled yr ysgolion wrth leihau'r effaith ar blant, bydd yr arian ychwanegol hwn yn cefnogi ein hymdrechion wrth i ni barhau tuag at y 'normal newydd'.

Roedd yn siŵr y byddai'r Aelodau'n ymuno ag ef i groesawu'r arian ychwanegol hwn gan Lywodraeth Cymru.

Aelod Cabinet – Gwasanaeth Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Dywedodd yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y gallai cynllun peilot ar gyfer gwasanaeth newydd, arloesol i bobl sy'n cael problemau iechyd meddwl yng nghanol Pen-y-bont ar Ogwr fod o ddiddordeb i Aelodau.

Mae hyn wedi'i gynllunio'n fwriadol i gynnig ffurf lai ffurfiol o ymyrraeth gynnar sydd wedi'i seilio ar amgylchedd anghlinigol sy'n gartrefol a'n hamddenol.

Mae'r pwyslais ar sicrhau ei fod yn groesawgar ac yn ddigynnwrf, a hynny er budd preswylwyr sy'n profi gorbryder, iselder, unigrwydd, unigedd, materion perthynas ddomestig a theuluol, cyfrifoldebau gofalwyr, straen, a materion eraill a allai effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

Ers agor ychydig cyn y Nadolig, mae'r gwasanaeth y tu allan i oriau wedi derbyn mwy na 100 o atgyfeiriadau o bob rhan o'r ardal.

Ceir mynediad drwy broses atgyfeirio gan staff iechyd proffesiynol, gwasanaethau cymdeithasol neu ofal cymdeithasol, ac mae'r gwasanaeth hyd yn oed yn cynnwys cludiant mewn tacsï i sicrhau diogelwch ac i ddymchwel rhwystrau i bresenoldeb.

Caiff ei ddarparu gan Mental Health Matters Wales, a'i gyflwyno fel rhan o gydweithrediad rhwng y Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Heddlu De Cymru, a darparwyr gwasanaethau trydydd sector eraill.

Gan mai hwn yw'r peilot cyntaf o'i fath yn ardal Cwm Taf Morgannwg, mae'n dda gweld bod yr adborth a gafwyd hyd yma wedi bod yn gadarnhaol, ac roedd yr Aelod yn siŵr y bydd aelodau'n croesawu hyn fel darn newydd, sylfaenol o rwydwaith estynedig gwasanaethau iechyd meddwl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol

Dywedodd yr Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol fod Swyddogion y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn dal i weithio gyda busnesau lleol ac yn cynnal gwiriadau i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r holl ofynion presennol o ran cyfyngiadau symud.

Gan fod y Gwanwyn bellach wedi cyrraedd a'r tywydd yn dechrau gwella, mae pobl sy'n prynu bwyd a diod tecawê yn cael eu hatgoffa y dylent gadw pellter cymdeithasol bob amser, ac i beidio ag yfed alcohol mewn ardaloedd lle mae Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar waith.

Daw hyn yn sgil problemau diweddar a gafwyd o amgylch ardal y marina ym Mhorthcawl.

Mewn ardal lle mae Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar waith, gwaherddir yfed alcohol neu ei gario mewn cynhwysyddion agored.

Mae hysbysiadau wedi'u gosod mewn ardaloedd dynodedig i atgoffa pobl o'r rheolau hyn, a bydd swyddogion o Heddlu De Cymru a'r awdurdod lleol yn cynnal patrolau rheolaidd.

Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir hefyd yn cyngori gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat trwyddedig yn y fwrdeistref sirol bod y cynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig offer amddiffyn personol am ddim wedi'i ymestyn.

Bydd y cynllun, sy'n cynnig pecyn â gwerth chwe mis o eitemau PPE i yrwyr cymwys, bellach ar gael tan 26 Mawrth.

Gall gyrwyr wneud cais a chanfod mwy o wybodaeth drwy fynd i wefan Llywodraeth Cymru.

Aelod Cabinet – Cymunedau

Dyweddodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau ei bod yn siŵr fod cydweithwyr wedi nodi brwdfrydedd pobl ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dros gerdded a beicio fel math o ymarfer corff a ganiateir yn ystod y pandemig.

Dros y deuddeg mis diwethaf, yr ydym wedi gweld prinder beiciau mewn siopau, a chynnydd mewn perchnogaeth cŵn wrth i breswylwyr ailddarganfod yr hyn sydd, yn llythrennol, ar garreg eu drws.

Mae gan CBSP hanes hir o ddarparu llwybrau teithio llesol o fewn y fwrdeistref sirol.

Ym mis Gorffennaf 2020, sicrhawyd grant o £3m gan Lywodraeth Cymru i wella ffyrdd beicio a llwybrau troed, gan gynnwys £2.6m ar gyfer y llwybr teithio llesol arfaethedig rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Choleg Pencoed.

Yna, ym mis Ionawr eleni, dechreuwyd y gwaith ar y llwybr teithio llesol i gysylltu Pencoed â Choleg Pencoed.

Fis Rhagfyr diwethaf, ymatebodd dros 900 o bobl pan ofynnwyd iddynt am y rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth wneud teithiau bob dydd, ar droed neu ar feic.

Defnyddiwyd yr adborth hwnnw i gyflwyno cynigion ar lwybrau teithio llesol newydd ar gyfer y fwrdeistref sirol, a chafodd ail gam ein hymgyngoriad ei lansio'r wythnos diwethaf.

Mae hyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac yr ydym hefyd yn annog pobl i ddweud wrthym ba welliannau ychwanegol yr hoffent eu gweld.

Bydd yr ymgynghoriad ar gael tan ddydd Sul 4 Ebrill, ac mae manylion am sut y gall pobl gymryd rhan ar gael ar wefan y cyngor ynghyd â mapiau sy'n dangos y llwybrau presennol a'r rhai arfaethedig.

Gobeithiai y byddai'r Aelodau'n annog eu hetholwyr i gymryd rhan, ac i ddweud wrthym a fydd y llwybrau arfaethedig yn eu helpu i fynd o amgylch eu hardaloedd lleol fel cerddwr neu feicwr.

Prif Weithredwr

Roedd y Prif Weithredwr am rannu datblygiad diweddar iawn gyda'r Aelodau, un a allai, pe bai'n llwyddiannus, fod yn allweddol wrth ddatgloi safle datblygu mawr yn y fwrdeistref sirol.

Fel y gŵyr yr Aelodau, mae hen safle Budelpack COSi a Cooper Standard ar Ystâd Ddiwydiannol Ewenny Road ym Maesteg, safle y mae'r Cyngor yn berchen arno'n rhannol, wedi bod yn wag ers dros ddegawd.

Mae hyn er gwaethaf ymdrechion parhaus i adfywio dros y blynyddoedd, gan gynnwys clirio safleoedd, gwaith archwiliadol, a chymeradwyaeth gynllunio ar gyfer un cynllun penodol na aeth yn ei flaen yn y pen draw.

Y gwir amdani yw bod y safle 20 erw yn anymarferol i raddau helaeth oherwydd y costau sylweddol sydd eu hangen i baratoi'r safle ar gyfer datblygu.

Mae angen gwaith seilwaith mawr yno, gan gynnwys dargyfeirio draen mwyngloddio hanesyddol a'r angen i ôl-lenwi sawl hen siafft, ar gost o filiynau o bunnoedd.

Nawr, trwy Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mae'r safle'n un o naw prosiect sydd wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyllid o gronfa bwllch hyfywedd sydd werth £30 miliwn.

Dylem wybod yn fuan a yw ein cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio, ond os caiff ei gymeradwyo (ac rydym yn hyderus y bydd) bydd swyddogion yn gweithio ochr yn ochr â thîm y Fargen Ddinesig i sicrhau y gellir bodloni'r holl feini prawf allweddol er mwyn derbyn y grant yn llawn.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr mai dim ond oherwydd ein perthynas barhaus â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y mae'r Cyngor wedi gallu manteisio ar y cyfle ariannu hwn.

Os bydd datblygiad dilynol yn digwydd, bydd yr elw o werthu tir yn cael ei ail-fuddsoddi yn ôl i Ddyffryn Llynfi, gyda chynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys cyfleusterau newydd fel parcio a theithio, canolfan fenter a mwy.

Byddai'n rhannu rhagor o fanylion ag Aelodau cyn gynted ag y byddent yn hysbys.

515. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Roedd yr Arweinydd am rannu diweddariad byr ar faterion yn ymwneud â'r pandemig.

Bydd yr Aelodau wedi nodi'r newyddion gwych ddoe bod dros filiwn o frechlynnau coronafirws bellach wedi'u rhoi ledled Cymru.

Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, mae dros 160,000 o bobl bellach wedi derbyn o leiaf un dos o'r brechlyn coronafirws.

Ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae hyn yn golygu mwy na 46,000 o drigolion.

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i fod yn obeithiol y bydd wedi darparu un dos neu fwy o'r brechlyn i'r 120,000 o drigolion sydd o fewn grwpiau blaenoriaeth 5-9 erbyn canol mis Ebrill.

I gefnogi hyn, cyhoeddwyd ffurflen atgyfeirio ar wefan Llywodraeth Cymru yn gynharach yr wythnos hon y gall gofalwyr di-dâl ei defnyddio i wneud cais am apwyntiad.

Dyma'n sefyllfa hyd yma o ran cyflwyno'r brechiad, mae'r holl breswylwyr a staff mewn cartrefi gofal wedi cael cynnig eu dos cyntaf o'r brechlyn, ac mae timau brechu symudol wrthi'n ailedrych ar y cartrefi i gynnig ail ddos.

Mae pobl 80 oed a hŷn wedi derbyn eu dos cyntaf drwy eu meddyg teulu lleol, ac rydym yn cysylltu â nhw i ddod yn ôl am ail ddos.

Mae gweithwyr iechyd rheng flaen wedi derbyn eu dos cyntaf mewn canolfannau brechu mewn ysbytai, ac mae ail ddosau yn cael ei rhoi ar y funud.

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen hefyd wedi derbyn eu dos cyntaf, y tro hwn mewn canolfannau brechu cymunedol, ac mae eu hail ddos yn cael ei drefnu.

Mae pobl 75 oed a hŷn wedi derbyn eu dos cyntaf drwy eu meddyg teulu lleol, ac rydym yn cysylltu â nhw i ddod yn ôl am ail ddos.

Mae pobl 70 oed a hŷn wedi bod mewn canolfannau brechu cymunedol ac yn derbyn manylion am eu hapwyntiadau ar gyfer yr ail ddos.

Mae'r rhai a dderbyniodd llythyrau gwarchod wedi cael eu dos cyntaf, ac mae meddygfeydd meddygon teulu yn cysylltu â nhw i drefnu eu hail ddos.

Mae pobl 65 oed a hŷn yn cael eu brechu ar hyn o bryd gyda'u dos cyntaf drwy feddygfeydd lleol, ac mae hyn yn parhau.

Mae meddygon teulu wedi dechrau cysylltu â phobl rhwng 16 a 64 oed sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol i drefnu eu dos cyntaf o'r brechlyn.

Bydd llythyrau'n cael eu dosbarthu'n fuan i wahodd pobl 60 oed a hŷn i fynd i ganolfannau brechu cymunedol ar gyfer eu dos cyntaf.

Dilynir hyn gyda llythyrau at bobl 55 oed a hŷn, ac yna pobl 50 oed a hŷn. Gofynnir i'r ddau grŵp hyn fynd i ganolfannau brechu cymunedol.

Fel y dywedwyd yn gynharach, gofynnir i ofalwyr di-dâl gyflwyno ffurflen ar wefan Llywodraeth Cymru i drefnu apwyntiad ar gyfer eu dos cyntaf o'r brechlyn coronafeirws.

Mae oedolion iau sydd ag anableddau dysgu, gan gynnwys y rhai mewn cartrefi gofal a lleoliadau byw â chymorth, hefyd yn cael eu brechu fel rhan o grŵp blaenoriaeth chwech.

Mae pobl ag anableddau dysgu sy'n byw mewn cartrefi gofal cofrestredig yn cael eu brechu gan y timau profi symudol, a bydd oedolion ag anableddau dysgu sy'n byw mewn byw â chymorth naill ai'n cael eu brechu yn eu cartref neu yn eu practis meddyg teulu lleol, pa un bynnag sydd orau i'r unigolion.

Mewn mannau eraill, roedd y gwaith profi cymunedol yn mynd rhagddo ar draws rhanbarth Cwm Taf.

Gan y credir bod un o bob tri o bobl yn asymptomatig, mae hwn wedi'i gynllunio i adnabod a lleoli unigolion 11 oed a hŷn, nad ydynt hyd yn oed yn gwybod bod ganddynt coronafeirws, ac a allai fod yn ei ledaenu i'w teuluoedd, eu ffrindiau, eu cydweithwyr, a mwy.

Bu wythnos gyntaf y fenter yn llwyddiannus iawn, gyda thros 500 o bobl yn mynd i ganolfan profi gymunedol a sefydlwyd yng Nghlwb Rygbi a Phêl Droed Mynydd Cynffig.

Arweiniodd hyn at 505 o ganlyniadau negyddol, un canlyniad amhendant, ac un canlyniad cadarnhaol.

Bydd y ganolfan yn symud i Glwb Cymdeithasol Pencoed rhwng dydd Mercher 10 Mawrth a dydd Mawrth 16 Mawrth, i Glwb Criced Tondu o ddydd Mercher 17 Mawrth tan ddydd Mawrth 23 Mawrth, ac i Glwb Cymdeithasol Athletig Caerau rhwng dydd Mercher 24 a dydd Mercher 31 Mawrth.

Yn gyffredinol, bydd y profion cymunedol yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol o fewn y fwrdeistref sirol - sef Caerau, Nantyllyn, Y Pîl, Mynydd Cynffig, Corneli, Cefn Cribwr, Sarn, Abercynffig, Goetre-hen, Ynysawdre, Bryncethin, Bryncoch, Pencoed, Hendre, Felindre a Heol-y-Cyw.

Defnyddiwyd data gwyliadwriaeth iechyd y cyhoedd wrth ddewis y meysydd profi.

Bydd profion llif unffordd hefyd yn cael eu cynnal mewn ysgolion lleol a Darpariaeth Amgen y Bont, unwaith eto yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Diben hyn yw ceisio atal y tebygolrwydd o glystyrau a brigiadau, yn ogystal â'r tarfu ar addysg a gofal sy'n dilyn yn anochel.

Fel bob amser, gall unrhyw un sy'n ceisio'r manylion diweddaraf am leoliad y cyfleusterau profi symudol o fewn y fwrdeistref sirol gael gwybod drwy fynd i wefan y cyngor, sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd.

Mae ein cynlluniau i nodi blwyddyn ers dechrau'r pandemig yn parhau, ac mae disgwyliadau'n uchel y bydd nifer o newidiadau'n cael eu cyhoeddi pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ei hadolygiad nesaf o weithdrefnau'r cyfyngiadau symud.

Yn y cyfamser, cynghorodd yr Arweinydd fod rhaid i bob un ohonom barhau i ddilyn y rheolau a'r canllawiau, a pharhau i wneud pob ymdrech i gadw ein cymunedau'n ddiogel ac yn iach.

516. **DERBYN Y CWESTIWN CANLYNOL GAN GYNRYCHIOLYDD O'R GRŴP 'SAVE OUR FIELDS' I'R AELOD CABINET - CYMUNEDAU**

Cwestiwn gan Mr A Drury

Roeddem wrth ein boddau bod aelodau Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn sgil astudiaeth ddichonoldeb Brackla Hill, wedi cydnabod gwerth mannau gwyrdd i les eu trigolion a'u cymunedau. Mae'r Arweinydd wedi cydnabod "gwerth y man gwyrdd agored cyhoeddus hwnnw i gymuned Brackla", dywedodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio ei fod yn ei natur erioed i "gadw mannau agored", ac aeth yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar cyhyd â dweud "bydd y gwaith helaeth sydd wedi'i wneud hyd yma yn ddigon i sicrhau cadwraeth Brackla Hill fel man agored gwyrdd." Mae Erthygl 11.01 o Gyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu i'r Cyngor ymgymryd â threfniadau ar y cyd â chyrff eraill er mwyn hybu llesiant, rhoddwyd y pwerau hyn gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

I gydnabod y pwerau hyn a'r rôl hanfodol y mae mannau gwyrdd yn ei chwarae yn ein lles emosiynol a chorfforol, yn enwedig yn anterth pandemig byd-eang, yn ogystal ag ymrwymiad presennol CBSP i beidio â datblygu ar Brackla Hill, gofynnaf a yw'r Aelod Cabinet – Cymunedau yn cytuno i gynnal addewid yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, i gadw Brackla Hill fel man agored gwyrdd ac i ddechrau'r broses o weithio gyda Fields in Trust ar unwaith i ddiogelu Brackla Hill mewn

cyfraith, ac i ddiogelu'r man gwyrdd yn Channel View a Foxfields gyda Gweithred Gyflwyno?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet – Cymunedau

Yn ddiweddar, ymrwymodd y Cyngor i gadw Brackla Hill fel man agored gwyrdd, a hynny oherwydd ei fod yn rhoi cydnabyddiaeth lwyr i werth mannau agored i les emosynol a chorfforol trigolion a chymunedau.

Bydd y man agored hwn yn cael ei ddiogelu drwy Gynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr (CDLI) gan mai dyma'r brif ddogfen cynllunio defnydd tir strategol sy'n llywio datblygiadau yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol. Dyma'r brif ystyriaeth hefyd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, gan fod cyfraith cynllunio yn mynnu bod yn rhaid i'r penderfyniadau cynllunio ystyried darpariaeth y cynllun datblygu.

Mae ardal Brackla Hill eisoes wedi'i diogelu yn y CDLI presennol ac mae wedi'i dyrannu'n benodol o dan Bolisi COM13(5) – Darparu Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch (gan gynnwys mannau agored cyhoeddus) ynghyd â nifer o fannau agored allweddol eraill yn y Fwrdeistref Sirol. Gallai unrhyw ddatblygiad ar yr ardaloedd hyn o dir arwain at wyro oddi wrth y cynllun datblygu, a byddai'n wynebu heriau o ran cynllunio.

Disgwylir i'r CDLI drafft newydd gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni a bydd yn cynnwys darpariaeth benodol i fannau agored hygyrch yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol ac archwiliadau o fannau agored. Bydd y cynllun yn agored ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a bydd unrhyw sylwadau yn cael eu hystyried cyn i Arolygydd Cynllunio allanol graffu ar y cynllun gyda'r bwriad o'i fabwysiadu yn y pen draw yn 2022. Mae'r ddarpariaeth o fannau agored mewn cymunedau a'i bwysigrwydd wedi'i amlinellu ym maes polisi cynllunio cenedlaethol h.y. Dyfodol Cymru 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru, y mae'r ddau ohonynt yn berthnasol i'r cynllun sydd ar y gweill.

Er ei fod yn deall cysyniad Fields in Trust, mae'n well gan y Cyngor weithio mewn partneriaeth lle y bo'n bosibl, gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Felly, er mwyn diogelu'r defnydd ohono yn y dyfodol, ond hefyd i wella a buddsoddi yn y ddarpariaeth yn Brackla Hill, gellid trosglwyddo'r ardal drwy drosglwyddiad asedau cymunedol i Gyngor Cymuned Lleol Brackla. Efallai y bydd grŵp Save Our Fields am ystyried cysylltu â'r cyngor lleol yn hyn o beth.

517. DATGANIAD POLISI CYFLOG - 2021/2022

Cyflwynodd Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol adroddiad ar ran y Prif Weithredwr, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer Datganiad Polisi Cyflog 2021/2022. Roedd hyn mewn ymateb i ofynion deddfwriaethol ac i fod yn ddidwyll a'n atebol o ran dulliau'r Cyngor o wobrwy ei staff.

Esboniodd fod gan y Cyngor ofyniad statudol o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, Adran 38(1) i baratoi Datganiad Polisi Tâl ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd 2021/2022. Mae angen cymeradwyo a chyhoeddi'r Datganiad hwn erbyn 31 Mawrth 2021.

Y Datganiad Polisi Tâl sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyflogau, ac i wneud penderfyniadau ar gyflogau uwch-swyddogion yn enwedig.

Cyfeiriodd Rheolwr y Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol yr Aelodau at y Datganiad Polisi Tâl sydd wedi'i ddiweddarau ac i'w gymeradwyo, y mae wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Cynhyrchwyd hwn yn unol â gofynion Deddf Lleoliaeth 2011, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddatblygu a chyhoeddi eu polisïau ar bob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion. Er mwyn sicrhau tryloywder pellach, mae cyfeiriad wedi'i gynnwys at dâl grwpiau perthnasol eraill yn y datganiad polisi.

Ers ei gyflwyno ar 1 Ebrill 2012, roedd y Polisi Cyflogau wedi datblygu i ystyried canllawiau, deddfwriaeth, a newidiadau perthnasol i strwythur uwch reolwyr y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd y strwythur cyflogau ar gyfer y grŵp staff yma yn Atodiad B i'r adroddiad, o fewn y Polisi Cyflog, a oedd hefyd wedi'i gyflwyno i'r Cyngor i'w nodi.

Yna rhoddodd y Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am baragraff 6.8 o'r Atodiad amgaeedig mewn perthynas â'r lwfans gwaith cartref a pharagraff 8, ymlacio cyflog.

Gofynnodd Aelod a oedd y Polisi Cyflog yn cynnwys hawliadau milltiroedd y cyflogwr ai peidio, a pha brotocolau oedd ar waith o fewn yr Awdurdod er mwyn sicrhau bod hawliadau o'r fath yn gywir ac yn gyfreithlon.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol nad oedd y Polisi Cyflog yn manylu ar dreuliau teithio cyflogwyr. Fodd bynnag, roedd canllawiau a gwiriadau a gwrthbwyysau ar waith er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau'n gywir. Ychwanegodd fod canllawiau ynglŷn â hyn hefyd ar gael ar y system dreuliau ar-lein. Pe bai hawliad twyllodrus yn cael ei wneud a'i nodi, yna byddai hyn yn cael ei gymryd ymhellach gyda'r cyflogai a'i reolwr, eglurodd y Rheolwr y Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol.

O ran unrhyw gynigion yn y dyfodol ynghylch prosesau Gwerthuso Swyddi a/neu Ddiswyddiadau, cydnabu Aelod fod rhai cyflogeion wedi bod o dan anfantais o'u cymharu ag eraill, yn enwedig y llynedd oherwydd y pandemig a gweithio gartref, gan nad oedd ganddynt ddewis ond rhoi mwy o amser i roi gofal yn y cartref, boed hynny ar gyfer plant neu aelodau hŷn o'r teulu. Gofynnodd am sicrwydd na fyddai'r gweithwyr hyn o dan anfantais mewn unrhyw ffordd pan fo'r Awdurdod yn edrych ar achosion posibl o ddiswyddo ac ati.

Rhoddodd Rheolwr y Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol sicrwydd y byddai polisïau Adnoddau Dynol yn cael eu cymhwyso yn unol ag anghenion gwasanaeth yr Awdurdod yn hytrach nac yn ôl ffactorau eraill, fel y soniwyd. Cadarnhaodd fod addasiadau wedi'u gwneud i bolisi oriau hyblyg y Cyngor o ganlyniad i Covid-19 gan alluogi'r rhai a oedd yn gallu gweithio gartref i reoli eu horiau contract ac unrhyw ymrwymïadau gofalu o'r fath, gyda phob achos o'r rhain yn cael eu hystyried yn ôl ei deilyngdod unigol ei hun gan y rheolwyr.

PENDERFYNIAD:

Bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl 2021/2022 sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

518. PROSIECT RHWYDWAITH GWRES TREF PEN-Y-BONT AR OGWR CAM 1

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a'r Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad ar y cyd, a'i ddiben oedd:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am ddatblygu Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr;
- ceisio cymeradwyaeth i gynnwys cyllideb o £3.4m o fewn rhaglen gyfalaf y prosiect;

- ceisio cymeradwyaeth i fenthyciad o £1.821m gael ei wneud gan y Cyngor i'r Cyfrwng at Ddibenion Arbennig (SPV) arfaethedig.

Dechreuodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, drwy gynghori bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) wedi dechrau edrych ar y cyfleoedd i ddatblygu rhwydweithiau gwres ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2012, gyda gyrwyr i brosiectau ar gyfer datgarboneiddio, rhesymau economaidd a chymdeithasol, fel yr ehangwyd ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad.

Mae Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i gynnwys fel prosiect yng Nghynllun Ynni Clyfar CBSP (a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Chwefror 2019). Mae'r Cynllun hwn yn manylu ar y prosiectau y bydd CBSP yn rhan ohonynt yn ystod cyfnod 2019 - 2025. Mae hyn yn cynnig rhoi gwahanol dechnolegau, cynigion defnyddwyr a modelau busnes ar brawf er mwyn darparu llwybr at ddatgarboneiddio Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd hefyd yn cyfrannu'n allweddol at strategaeth datgarboneiddio Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019) "Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel".

Aeth ymlaen drwy ddweud bod Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig darparu gwres (gyda pheiriant gwres a phŵer cyfunedig wedi'i bweru gan nwy wedi'i leoli yn y Bridgend Life Centre) ar gyfer y Bridgend Life Centre, y Swyddfeydd Dinesig, a Neuadd Fowlio Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai'r prosiect hefyd yn darparu trydan i'r Life Centre, i'r Swyddfeydd Dinesig, a'r Neuadd Fowlio.

Gwnaed cais am grant cyfalaf i Lywodraeth y DU drwy ei Rhaglen Buddsoddi mewn Rhwydwaith Gwres (HNIP) ym mis Ebrill 2019. Cymeradwywyd hyn ym mis Rhagfyr 2019 ar gyfer: (i) gwneud buddsoddiad cyfalaf o £1,000,000 tuag at adeiladu'r rhwydwaith gwres; a (ii) £241,000 ar gyfer gweithgareddau cyn adeiladu.

Aeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau yn ei blaen drwy ddweud bod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2021, wedi rhoi cymeradwyo parhau â phrosiect Rhwydwaith Gwres Ardal Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd parhau â'r cynllun yn golygu gwneud rhai penderfyniadau ariannol. Un ohonynt oedd nodi y bydd angen diwygio Strategaeth Reoli'r Trysorlys i alluogi'r Cyngor i wneud benthyciad o £1.821 miliwn i'r SPV; y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn Strategaeth Rheoli ddrafft y Trysorlys 2021-22 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 28 Ionawr 2021, ac yna wedyn i'r Cyngor i'w gymeradwyo ym mis Chwefror 2021.

Ychwanegodd fod y Cabinet hefyd wedi cytuno y dylid cyflwyno adroddiad i'r Cyngor, gan argymhell diwygio'r rhaglen gyfalaf i gynnwys prosiect Rhwydwaith Gwres Ardal Tref Pen-y-bont ar Ogwr a bod y Cyngor yn cytuno ar y benthyciad i'r SPV, yn amodol ar gymeradwyaeth i newidiadau i Strategaeth Reoli'r Trysorlys. Fel y gŵyr yr Aelodau, roedd y Cyngor wedi cymeradwyo hyn ers hynny yn ei gyfarfod blaenorol o'r Gyllideb.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau fod y Cabinet wedi cymeradwyo caffael contractwr Dylunio Adeiladu Gweithredu Cynnal ar gyfer Rhwydwaith Gwres Ardal Pen-y-bont ar Ogwr drwy ddefnyddio'r weithdrefn a negodwyd gyda galwad ymlaen llaw am gystadleuaeth o dan Reoliadau Contract Cyfleustodau 2016. Cytunwyd mai Brodies LLP (cynghorwyr cyfreithiol y Cyngor ar y cynllun hwn) fyddai'n caffael y Contractwr Dylunio Adeiladu Gweithredu Cynnal ar ran y Cyngor o dan y weithdrefn a negodwyd gyda galwad ymlaen llaw am gystadleuaeth o dan Reoliadau Contract Cyfleustodau 2016.

Mae adroddiad pellach wedi'i drefnu i'w gyflwyno i'r Cabinet, ar ôl i'r broses contractwr Dylunio Adeiladu Gweithredu Cynnal ddod i ben, er mwyn penderfynu a ddylid dyfarnu'r contract.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, o ran camau Rhwydwaith Gwres Ardal Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn y dyfodol, fod y Cabinet hefyd wedi cymeradwyo caffael, ac yna phenodi, ymgynghorydd technegol/ariannol a chynghorydd cyfreithiol, a hynny er mwyn paratoi Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cam 2 Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd hyn yn cynnwys dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau i dendro am ymgynghorydd technegol/ariannol ac i'r Cynghorydd Cyfreithiol baratoi Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cam 2 Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr, ac i ddyfarnu'r contractau i'r tendrwy'r llwyddiannus, gyda thelerau cytundebol y contractau i'w cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol.

Ychwanegodd y byddai adroddiad pellach ar greu'r Cyfrwng at Ddibenion Arbennig (SVP) a fydd yn darparu'r mecanwaith cyflenwi masnachol ar gyfer y prosiect hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet maes o law.

Mae'r Cabinet wedi argymhell i'r Cyngor y dylid diwygio'r Rhaglen Gyfalaf i werth llawn y prosiect fel yr amlinellir ym mharagraff 8 o'r adroddiad ac y dylid darparu benthyciad i'r SPV ar gyfer Prosiect Rhwydwaith Gwres Ardal Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Felly, roedd yr adroddiad gerbron y Cyngor yn ceisio cymeradwyaeth i gynnwys cyllideb o £3.4m o fewn y rhaglen gyfalaf ar gyfer Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Tynnwyd sylw at fanylion pellach am y dadansoddiad o'r cyllid ym mharagraff 8 o'r adroddiad. Daeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau i gasgliad trwy ddweud ei bod yn debygol y bydd angen i'r Cyngor fenthycu'r cyllid ei hun (o fewn telerau Strategaeth Reoli gymeradwy'r Trysorlys), ac yna rhoi benthyc hyn i'r Cyfrwng at Ddibenion Arbennig arfaethedig. Bydd y gyfradd llog a godir ar y SPV yn sicrhau nad fydd unrhyw niwed i'r Cyngor.

Cadarnhaodd Aelod ei fod yn gefnogol i unrhyw beth a oedd yn gwella'r seilwaith Ynni Lleol. Fodd bynnag, ei ddealltwriaeth ef oedd bod gan Rwydweithiau Gwres Lleol fel hyn 'gyfnod silff', gan olygu y byddent yn dod yn llai effeithlon gydag amser. Gofynnodd beth oedd y 'cyfnod silff' disgwyledig ar gyfer y Prosiect Rhwydwaith Gwres penodol hwn a pha fecanweithiau cymorth oedd ar waith yn y tymor hwy i'w uwchraddio yn ôl yr angen, fel bod ei lefel effeithlonrwydd yn cael ei chynnal.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau mai hyd oes y prosiect fyddai 40 mlynedd, h.y. bydd yn cyd-fynd â chyfnod y benthyciad. Yr hyn a gynigiwyd ar hyn o bryd oedd Cam 1 y cynllun yn unig, a oedd yn cynnwys gwaith ar 3 adeilad. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei ehangu i adeiladau eraill yn y sector cyhoeddus, er enghraifft fel Coleg Pen-y-bont ar Ogwr ac Ysbyty POW. Byddai hyn yn cynyddu capasiti a'n ehangu'r manteision a geir gan y Rhwydwaith Gwres ymhellach. Cydnabu y byddai elfennau technolegol y prosiect yn newid gydag amser, felly yn rhan o'r model ariannol ceir cronfa Cyfalaf Wrth Gefn er mwyn cefnogi'r gwaith o uwchraddio seilwaith dros oes y prosiect.

Dangosodd Tabl 3 yr adroddiad y costau amrywiol ar gyfer gweithredu'r prosiect, a byddai'r rhain yn sicrhau bod Prosiect y Rhwydwaith yn cael ei weithredu'n effeithlon wrth symud ymlaen. Byddai'r SPV hefyd yn cael ei gefnogi gan Fwrdd Cyfarwyddwyr a fyddai'n monitro ac yn darparu mwy o gymorth rheoli i'r prosiect.

Dywedodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau y byddai cynigion yr adroddiad yn arwain at newid sylweddol i'r ffordd y darparwyd ynni ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd hyn yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â thargedau'r Llywodraeth o ryddhau ardaloedd rhag carbon. Dyma gynllun newydd ac arloesol, un y mae awdurdodau lleol eraill wedi'i ddilyn

yn llwyddiannus gyda mentrau newydd. Byddai'r cynigion yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, a oedd yn rhan annatod o Strategaeth Dad-garboneiddio'r Cyngor.

Gofynnodd Aelod am sicrwydd na fydd unrhyw arian cyhoeddus a ymrwymwyd i Brosiect Rhwydwaith Gwres Pen-y-bont ar Ogwr, na'r elw sy'n deillio ohono, yn mynd i goffrau cwmnïau elw mawr sy'n cefnogi'r prosiect, gan gynnwys Bwrdd y Cyfarwyddwyr.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau na fyddai Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn derbyn unrhyw becyn cydnabyddiaeth ac y byddai unrhyw bobl allanol i'w gwahodd i eistedd ar y Bwrdd ond yn derbyn costau teithio. Byddai unrhyw gyfalaf a wneir o'r prosiect yn cael ei fwydo yn ôl i'w ddatblygiad pellach, a/neu i ymrwymo i gynigion effeithlonrwydd ynni eraill, megis mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Teimlai Aelod nad oedd yr amser yn iawn i gyflwyno'r prosiect a'i fod yn ormod o ymrwymiad ariannol, mewn blwyddyn lle'r oedd pobl wedi dioddef yn ariannol ac o safbwynt iechyd meddwl oherwydd pandemig Covid-19. Gwaethygydd hyn gan bobl yn colli eu swyddi ac yn wynebu tlodi.

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, o ran ymrwymo unrhyw elw yn ôl i Brosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr, bod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys wedi'i chymeradwyo yn y Cyngor diwethaf. Ar y cyd â hyn, roedd wedi gwneud y pwynt yn y cyfarfod hwnnw y byddai benthyciad y Cyngor ar gyfer cynnyrch yn unig yn creu sefyllfa lle na fyddai'r Awdurdod wedyn yn gallu benthycu ar gyfer unrhyw Gynlluniau Cyfalaf yn y dyfodol. Felly, ail-bwysleisiodd y byddai unrhyw incwm sy'n deillio o'r prosiect yn cael ei fwydo'n ôl i mewn iddo, yn hytrach na mynd i goffrau unrhyw gwmnïau sy'n ei gefnogi.

Daeth yr Arweinydd â'r ddadl ar yr eitem i ben trwy gynghori'r Aelodau, er bod gan y Cyngor rai dewisiadau a hyblygrwydd o ran cynlluniau ei Raglen Gyfalaf, nad oedd dewis o ran ble i ymrwymo'r grant £1m gan Lywodraeth y DU ar gyfer y prosiect penodol hwn. Pe na bai'r Cyngor yn ymrwymo i Brosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr, ni ellid defnyddio'r cyllid ar gyfer unrhyw beth arall, byddai'n rhaid dychwelyd yr arian. Atgoffodd yr Aelodau fod argyfwng hinsawdd a bod yn rhaid mynd i'r afael ag ef, a'i fod yn cael effaith andwyol ar gymunedau yn Ne Cymru, megis y problemau cynyddol gyda llifogydd, a chyda hyn mewn golwg, yr oedd yn hanfodol mynd ar drywydd datrysiadau ar frys er mwyn lleddfu'r problemau hyn.

Gan nad oedd rhai Aelodau o blaid argymhellion yr adroddiad, cytunwyd y dylid cynnal pleidlais electronig, fel a ganlyn:-

O blaid: (argymhellion yr adroddiad)

Y Cynghorwyr SE Baldwin, T Beedle, JP Blundell, NA Burnett, M Clarke, N Clarke, RJ Collins, HJ David, P Davies, PA Davies, DK Edwards, J Gebbie, RM Granville, CA Green, G Howells, RM James, B Jones, M Jones, M Kearns, DRW Lewis, JE Lewis, JR McCarthy, D Patel, JC Radcliffe, B Sedgebeer, RMI Shaw, CE Smith, SG Smith, G Thomas, R Thomas, T Thomas, KJ Watts, DBF White, PJ White, AJ Williams, EM Williams ac RE Young = **37 pleidlais**

Yn erbyn:

Y Cynghorwyr S Aspey, A Pucella, A Williams a J Williams = **4 pleidlais**

Ymatal:

Y Cynghorwyr T Giffard, KL Rowlands, S Vidal ac L Walters = **4 pleidlais**

Felly, cafwyd,

PENDERFYNIAD:

Fod y Cyngor wedi:

1. Cymeradwyo cynnwys Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr o fewn y rhaglen gyfalaf gyda chyllideb o £3.4m.
2. Cymeradwyo benthyciad pellach o £1.821m i'r Cyfrwng at Ddibenion Arbennig ar y telerau a nodir yn yr adroddiad, ac i roi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr i gytuno ar delerau terfynol y Cytundeb Benthycia a'u cymeradwyo, a threfnu i'r Cytundeb Benthycia gael ei weithredu ar ran y Cyngor, gyda phwerau o'r fath yn cael eu harfer mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Cyfreithiol Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheoleiddio a'r Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid.

519. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL CYFLEUSTERAU ADDYSGOL A DATBLYGIAD PRESWYL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i fabwysiadu SPG16 - Cyfleusterau Addysgol a Datblygu Preswyl fel Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Pen-y-bont ar Ogwr.

Dywedodd y bydd yr Aelodau'n ymwybodol iawn bod gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau bod cyfleusterau addysgol o ansawdd da ar gael i blant a phobl ifanc y Fwrdeistref Sirol. Roedd hwn yn un o amcanion allweddol y Cynllun Corfforaethol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae datblygu tai newydd yn y Fwrdeistref Sirol yn rhoi mwy o bwysau ar gyfleusterau addysg presennol, eglurodd.

Roedd SPG16 yn arf allweddol i leddfu'r pwysau hwnnw, drwy ddarparu cyngor ac arweiniad mewn amgylchiadau lle y gallai'r Cyngor, yn gyfiawn, geisio cyfraniadau ariannol tuag at ddarparu cyfleusterau addysgol.

I grynhoi, mae'r CCA yn nodi:

- Cyd-destun a deddfwriaeth y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Lleol;
- Polisi ac arfer y Cyngor ei hun o ran addysg;
- Nodiadau canllaw sy'n egluro'r amgylchiadau a'r mecanweithiau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau tebygol;
- Enghreifftiau o sut y gwneir hyn; a
- Chanllawiau ar sut y caiff y polisi ei weinyddu.

O ran y sefyllfa bresennol, dywedodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol, fod gan y Cyngor SPG16 eisoes, a oedd wedi llwyddo i gynhyrchu miliynau o bunnoedd ar gyfer brosiectau ysgolion. Fodd bynnag, mabwysiadwyd y fersiwn gyfredol yn 2010 ac yn ddiweddar, mae swyddogion wedi canfod nad oedd lefel y cyfraniadau a gynhyrchwyd bellach yn cyd-fynd â chost arferion adeiladu modern. O ganlyniad, ffurfiwyd gweithgor bach, er mwyn cynnal adolygiad ffurfiol a chynhyrchu drafft wedi'i ddiweddarau, ac ar 16 Ionawr 2020, cymeradwyodd aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fersiwn drafft y CCA fel sail ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd.

Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori o 6 wythnos rhwng 21 Chwefror a 3 Ebrill 2020, gyda'r ymgynghoriad yn cael ei hysbysebu yn y modd a ddisgrifir ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad.

Erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori derbyniwyd saith cynrychiolaeth ynglŷn â'r CCA drafft. Crynhoir y cynrychiolaethau hyn yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Ar 21 Ionawr 2021, ystyriodd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yr holl gynrychiolaethau a chytunodd ar y newidiadau i'w gwneud i'r ddogfen, o ystyried y sylwadau a gafwyd. Mae'r rhain bellach wedi'u hymgorffori fel diwygiadau i'r CCA sydd ynghlwm yn Atodiad 2 (i'r adroddiad).

Byddai'r Aelodau'n nodi o'r pwyntiau bwled ym mharagraff 4.4, fod y gwelliannau arfaethedig wedi'u cyfyngu i bwyntiau cymharol syml ynglŷn ag eglurdeb, rhywbeth a oedd yn adlewyrchu faint o waith a oedd yn rhan o'r CCA drafft o'r cychwyn cyntaf. Cydnabu Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol fewnbwn y tîm Moderneiddio Ysgolion a chyfraniadau'r Cynghorydd Amanda Williams, a roddodd gyfraniadau gwerthfawr i'r gwaith o adolygu a chynhyrchu'r CCA drafft a sicrhau bod gan yr Aelodau lais yn y broses.

Yna cwblhaodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol yr adroddiad drwy gyfeirio at ei berthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Roedd yr Aelodau'r Cabinet a gwmpasodd y portffolio hwn yn croesawu'r ffaith bod mwy o ddibyniaeth yn cael ei rhoi ar ddatblygwyr tai newydd o ran ceisio cyfraniad ariannol addas ganddynt ar gyfer darpariaeth addysg, pan fo angen gwneud hynny, o ganlyniad i adeiladu datblygiadau newydd. Roeddent hefyd yn falch o nodi dull trawsgwricwla cynyddol rhwng adrannau Cynllunio ac Addysg y Cyngor, a fyddai'n helpu gyda'r cynigion datblygu ac a fyddai'n cael eu bwydo i mewn i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd.

Roedd Aelod yn gobeithio y byddai trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru yn y dyfodol er mwyn ceisio cyllid ar gyfer darpariaeth addysg, yn enwedig mewn meysydd lle'r oedd lle i ddarparu cynnydd mewn datblygiadau preswyl newydd.

Cyfeiriodd Aelod at gyfraniadau tuag at seilwaith addysgol ac enghraifft y fformiwla ystadegol a ddefnyddiwyd yn hyn o beth fel y cyfeiriwyd ati yng ngwybodaeth ategol yr adroddiad. Fodd bynnag, gofynnodd a oedd hyn yn cynnwys plant iau hefyd a fyddai'n symud ymlaen i addysg gynradd ac yna addysg uwchradd, ac oedd y wybodaeth y mae'r Cyngor yn seilio ei amcanestyniadau arnynt wedi'i alinio'n ddigonol â darpariaethau addysg yn y dyfodol a'r datblygiadau preswyl newydd y byddent yn eu gwasanaethu, neu a wnaed yr amcanestyniad yn seiliedig ar 'eiliad mewn amser' yn unig.

Dywedodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol, o ran y CCA, fod ffactorau fel cost cyfleusterau fesul plentyn yn cael eu hystyried a'u diweddarau yn unol â chyngor ac arweiniad Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag amcanestyniadau poblogaeth yn y dyfodol mewn lleoliadau, h.y. edrych ar gapasiti mewn ysgolion presennol o gymharu â nifer yr unedau preswyl. Hefyd, ar y cyd â'r uchod, rhagwelwyd poblogaeth ysgol benodol ar gyfer y 3, 4 neu 5 mlynedd nesaf ac ati. Arweiniodd yr holl faterion hyn at sut y cafodd cyfrifiadau cyffredinol eu cyfrifo o gymharu â chynnyrch y disgybl yn y CCA.

PENDERFYNIAD:

Fod y Cyngor wedi:

- (1) Mabwysiadu SPG16 – Cyfleusterau Addysgol a Datblygiad Preswyl (Atodiad 2 i'r adroddiad) fel Canllawiau Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Pen-y-bont ar Ogwr.
- (2) Cytuno y dylid cyhoeddi'r CCA, ar ei ffurf fabwysiedig, ar wefan y Cyngor.

520. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG 2020-21 A DATGANIAD O GYFRIFON

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Cyngor o'r gofyniad i Aelodau ddatgan yn ffurfiol unrhyw drafodion partïon cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21, drwy gwblhau'r datganiad a amgaeir yn Atodiad A i'r adroddiad. Rhaid gwneud hyd yn oed os yw'n ffurflen sero, ac ni ddylid ei chwblhau cyn 31 Mawrth 2021 ond rhaid ei dychwelyd erbyn dydd Gwener 9 Ebrill 2021 fan hwyrach.

Dywedodd nad oedd y gofyniad i ddatgan trafodion partïon cysylltiedig yn newydd o fewn y Datganiad Cyfrifon. Mae Archwilio Cymru yn craffu'n fanwl ar y ffurflenni hyn fel rhan o'u harchwiliad o'r Datganiad Cyfrifon ac wedi argymhell y dylai'r Cyngor:-

- atgoffa pob Cynghorydd yn ffurfiol o bwysigrwydd cwblhau a chyflwyno eu ffurflen parti cysylltiedig flynyddol erbyn y dyddiad cau a bennwyd gan yr Adran Gyllid; a
- sicrhau bod unrhyw ffurflenni parti cysylltiedig hwyr yn cael eu ceisio yn brydlon."

Felly, roedd yr Adroddiad yn hysbysu'r Aelodau o'r gofyniad i gwblhau'r datganiad sydd ynghlwm yn Atodiad A, gan gyfeirio at y canllawiau sydd ynghlwm yn Atodiad B erbyn dydd Gwener 9 Ebrill 2021. Ychwanegodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, ei bod yn bwysig iawn bod y ffurflen wedi'i llenwi hyd at 31 Mawrth 2021 ac yn cwmparu'r flwyddyn ariannol iawn neu'r cyfnod yr oedd yr unigolyn yn Aelod o'r Cyngor ar ei gyfer. Dylai Aelodau nodi y byddai copi o'r datganiad hwn yn cael ei e-bostio ar wahân i'w cyfeiriad e-bost CBSP er mwyn ei gwblhau a'i ddychwelyd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai copïau a ddychwelwyd gyda llofnod wedi'i deipio yn cael eu derbyn.

Cadarnhaodd hefyd, mewn ymateb i gwestiwn pellach, y dylai Aelodau a oedd yn ymwneud ag Is-gontractio i Gontractwyr y Cyngor hefyd ddatgelu hyn ar y ffurflen, yn ogystal â datgelu aelodau agos o'r teulu a oedd yn darparu'r gwasanaeth o'r fath neu debyg.

O ran rheoli grantiau yr oedd CBSP wedi'u cwblhau fel elfen ddosbarthu ar gyfer Llywodraeth Cymru, dylid datgelu'r rhain ar y ffurflen hefyd, ychwanegodd.

PENDERFYNIAD:

Fod y Cyngor yn nodi'r gofyniad i Aelodau:

- (1) Datgan yn ffurfiol unrhyw drafodion partïon cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21.
- (2) Cwblhau a dyddio'r ffurflen ar 31 Mawrth 2021 neu hwyrach.
- (3) Cyflwyno'r ffurflen erbyn dydd Gwener 9 Ebrill 2021.

521. ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2021-22

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, i hysbysu'r Cyngor o Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â lefel ac ystod y

gydnabyddiaeth ariannol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei darparu i'w Aelodau etholedig ar gyfer blwyddyn y cyngor 2021/22.

Hwn oedd 13eg Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel), a'r degfed a gyhoeddwyd o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad). Ymestynnodd y Mesur gyfrifoldebau'r Panel a'i bwerau o dan Adran 142 i benderfynu (rhagnodi) taliadau i aelodau awdurdodau perthnasol.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod cynrychiolwyr y Panel wedi cynnal cyfarfodydd ymgynghori ar eu cynigion, a fynychwyd gan Bennaeth Gwasanaethau Democraidd yr Awdurdod. Roedd y Panel wedi cydnabod pob un o'r 39 ymateb i'r ymgynghoriad ar yr adroddiad drafft ac wedi ateb yr holl ymholiadau a godwyd mewn perthynas â hyn.

Dangoswyd Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2021/22 yn Atodiad 1 i'r Adroddiad Blynyddol (o dudalen 51 ymlaen).

Esboniodd mai'r Cyflog Sylfaenol yn 2021/22 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau fydd £14,368 o 1 Ebrill 2021 (Penderfyniad 1). Telir y cyflog hwn gan bob prif awdurdod i bob un o'i aelodau etholedig oni bai bod unrhyw aelod unigol yn dewis yn bersonol ac yn ysgrifenedig i gael swm is. Mae addasiadau'r blynyddoedd diwethaf wedi cyd-fynd ag egwyddor y Panel y dylai ei benderfyniadau fod yn fforddiadwy ac yn dderbyniol. Cynhelir yr egwyddor hon yn y cynnydd o £150 yng nghyflog sylfaenol aelodau etholedig ar gyfer 2021/22.

Bydd y lefelau cyflog uwch yn 2021-22 ar gyfer aelodau prif gynghorau fel y nodir yn Nhabl 3, tudalen 14 yr Adroddiad Blynyddol (mae Atodiad 1 yn cyfeirio at hyn). Roedd y Panel o'r farn mai'r rolau arwain a gweithredol sydd â'r atebolrwydd unigol mwyaf a bod maint y boblogaeth yn parhau i fod yn ffactor o bwys wrth ddylanwadu ar lefelau cyfrifoldeb ac felly mae'r defnydd o'r grwpiau poblogaeth wedi'i gadw.

Mae Cyflog yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd wedi'i seilio ar boblogaeth y Fwrdeistref Sirol (100,000 i 200,000). Mae gan yr Arweinydd hawl i dderbyn £49,974 a'r Dirprwy Arweinydd £35,320. Bydd gan Aelodau'r Cabinet hawl i gael uwch gyflog o £30,773.

Pan fydd Cadeiryddion Pwyllgorau yn cael eu talu, telir cyflog o £23,161 iddynt. Dywedodd y Panel unwaith eto mai mater i awdurdodau unigol yw penderfynu pa Gadeiryddion sy'n cael eu talu. Yn ei Gyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2020, penderfynodd y Cyngor y dylid talu Cadeiryddion am Bwyllgorau, fel y dangosir ym mharagraff 4.2.4 o'r adroddiad.

Roedd y Panel wedi penderfynu bod yn rhaid i'r Cyngor sicrhau bod uwch gyflog o £23,161 ar gael i arweinydd y grŵp gwrthblaid mwyaf.

O ran cyflogau Dinesig, mae Cynghorau wedi mynegi'n gryf wrth y Panel nad yw Aelodau Etholedig yn dymuno gwneud unrhyw ddewisiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynghorau eu hunain ddewis a chyfateb lefel gweithgarwch neu ddyletswyddau aelod penodol i ystod benodol o lefelau cyflog ar gyfer rôl. Mae'r Panel wedi penderfynu (Penderfyniad 3) ei bod yn rhaid (pan fo'n cael ei dalu) talu cyflog o £23,161 i Bennaeth Dinesig (Maer) a (pan gaiff ei dalu) bod yn rhaid talu cyflog o £18,108 i Ddirprwy Bennaeth Dinesig (Dirprwy Faer) o 1 Ebrill 2021.

Rhoddodd gweddill yr adroddiad wybodaeth mewn perthynas â'r canlynol:-

- Lwfansau Aelodau Cyfetholedig y Pwyllgor;
- Cyfraniadau tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol (CPA);

- Absenoldeb Oherwydd Salwch ar gyfer Deiliaid Cyflog Uwch; a
- Cydymffurfio â Gofynion y Panel

PENDERFYNIAD:

Bod y Cyngor wedi nodi Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2021 a chymeradwyo:

- mabwysiadu penderfyniadau perthnasol y Panel a gynhwysir yn ei Adroddiad Blynyddol (Atodiad 1 i'r adroddiad);
- y swyddi hynny (fel y dangosir yn Rhestr Gydabyddiaeth Ariannol ddiwygiedig yr Aelodau yn Atodlen 1 i'r adroddiad), a fydd yn cael cyflog uwch/dinesig;
- lefel y gydnabyddiaeth i'r Cyflogau Uwch a Dinesig (lle bo hynny'n briodol);
- rhestr Ddiwygiedig yr Aelodau o Gydabyddiaeth Ariannol yn Atodiad 2, ac iddo ddod i rym ar 1 Ebrill 2021;
- bod Atodlen Dâl yr Aelodau yn cael ei diweddarau gydag unrhyw newidiadau i swyddi Cyflogau Uwch/Dinesig a wnaed wedi hynny gan y Cyngor yn ystod blwyddyn y cyngor 2021-22.
- i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adolygu'r darpariaethau ar y cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol fel y nodir ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad.

522. I DDERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN:

Y Cyngorydd Altaf Hussain i'r Arweinydd

Yng Nghymru, mae 60% o oedolion, ac 1 o bob 8 plentyn 4-5 oed, dros bwysau neu'n ordew, a phob blwyddyn mae'r ffigur hwn yn cynyddu. Ceir tystiolaeth gyson bod gordewdra (pwysau gormodol) yn gysylltiedig â risg COVID-19 uwch yn ogystal â'r risg o glefydau fel diabetes math 2, clefyd y galon, canser a chlefydau anadlol sydd eu hunain yn cynyddu'r risg o gymhlethdodau mewn rhywun sy'n contractio COVID-19. Gan wybod mai gordewdra yw un o'r ffactorau risg prin hynny y gellir eu hatal ar gyfer COVID-19, a allai'r Arweinydd roi gwybod i ni pa fesurau y mae'n eu cymryd i helpu'r trigolion hynny sy'n byw gyda gorbwysau neu ordewdra i golli pwysau mewn modd cynaliadwy, ynghyd ag ymyriadau i atal cynnydd mewn pwysau a lleihau'r risg o COVID-19 yn ein Bwrdeistref?

Ymateb:

Does dim amheuaeth fod y pandemig wedi amlygu effaith niweidiol firws o'r fath ar grwpiau sy'n fwy agored i niwed ac ar bobl â lefelau uwch o risgiau, rhai sy'n aml yn gysylltiedig ag ymddygiadau ac arferion gwael. Nododd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2019-2020 y canlynol ymhlith oedolion:

Roedd 18% o'r boblogaeth yn ysmygu

Roedd 19% o'r boblogaeth yn yfed mwy na'r canllawiau wythnosol

Dim ond 25% oedd wedi bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau y diwrnod cynt

53% oedd yn bod yn egnïol am 150 munud neu fwy yr wythnos
Roedd 10% yn dilyn llai na 2 ymddygiad iach
Roedd 61% o'r boblogaeth oedolion dros bwysau neu'n ordew (gan gynnwys 25% yn ordew).

O ran gordewdra ymhlith plant, mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn bartner gweithgar gyda bwrdd iechyd Cwm Taf Morgannwg ac mae'n rhan o rwydwaith sy'n canolbwyntio ar atal gordewdra ymhlith plant ar draws y bwrdd iechyd cyfan. Cafwyd digwyddiad system gyfan gyda llawer o randdeiliaid cyn y pandemig a bydd yn cefnogi gwaith yn y dyfodol. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant er mwyn gwella lles pobl ifanc a'n cymunedau. Mae'r arolwg Mesur Plant Cenedlaethol yn un o'r dulliau a ddefnyddir i olrhain lles corfforol plant. Yn y cyhoeddiad diweddaraf am ddata, roedd Pen-y-bont ar Ogwr ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o ran plant a ddosbarthwyd yn ordew, ar ffigwr o 11.9% (o gymharu â RhCT, 14.4%, a Merthyr, 15.6%).

Mae cefnogi pobl i fod yn bwysau iach yn parhau i fod yn flaenoriaeth i iechyd y cyhoedd ac mae gan y Cyngor rôl o ran cynnal neu wella lles pobl leol a'n cymunedau. Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod gordewdra yn cynyddu risgiau diabetes math 2, clefyd y galon, a chlefydau anadlol ac mae'n bwysig bod pobl yn cael cyfleoedd, gwybodaeth a chymorth i reoli eu pwysau'n gynaliadwy. Bydd hyn o fudd i frwydro yn erbyn effaith negyddol Covid 19 ac, o bosibl, clefydau trosglwyddadwy neu gyflyrau cronig eraill hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod, o'r dysgu a'r mewnwelediad a gafwyd yn ystod cam cyntaf y pandemig, y gallai anghydraddoldebau a materion yn ymwneud ag ansicrwydd bwyd a oedd eisoes yn bodoli fod wedi'u gwaethygu.

Ym mis Chwefror 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Pwysau Iach, Cymru Iach gyda chynllun cyflawni cysylltiedig hyd at 2022, ond oherwydd y pandemig mae angen newid blaenoriaethau'r dyheadau cyflawni gwreiddiol gan fod yr ymateb i'r pandemig wedi gweld newid mewn gwasanaethau, cyllid a chapasiti.

Mae'r blaenoriaethau newydd ar gyfer Pwysau Iach, Cymru Iach hyd at 2022 fel a ganlyn:

Maes Blaenoriaeth 1-Nodi cynigion i wneud yr amgylchedd bwyd yn iachach

Maes Blaenoriaeth 2-Cynyddu Cyfleoedd Teithio Llesol

Maes Blaenoriaeth 3-Cynyddu gweithgarwch corfforol a chyfleoedd ymarfer corff

Maes Blaenoriaeth 4-Dechrau darparu llwybr gordewdra diwygiedig

Maes Blaenoriaeth 5-Cyfathrebu a phecynnu digidol

Mewn perthynas â'r blaenoriaethau newydd a gyflwynwyd, mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi'r amcanion a nodwyd. Mae'r eitemau canlynol i gyd yn cysylltu â'r blaenoriaethau a chamau gweithredu Pwysau Iach... Cymru Iach a nodwyd yn flaenorol;

Mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi mewn llwybrau cymunedol a llwybrau diogel i'r ysgol i annog mwy o bobl i gerdded a beicio yn hytrach na theithio ar gerbydau a bydd hyn wedi adeiladu sylfaen gadarn gan ddefnyddio'r Grant Teithio Llesol, y grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a'r grant Diogelwch ar y Ffyrdd.

Mae'r awdurdod yn cyflwyno'r rhaglen Beicio/Teithiau Egnïol Safonau Cenedlaethol yn uniongyrchol i bobl ifanc yn ein hysgolion ar lefelau 1 a 2 ac yn ddiweddar mae'r rhaglen hon wedi gweld twf ac wedi'u hymestyn ar draws y sir. Er gwaethaf y pandemig mae'r rhaglen gydag ysgolion wedi parhau.

Mae gallu pobl ifanc i deithio trwy eu cymunedau heb gludiant yn rhan bwysig o'n hasesiad a'n cynllun gweithredu lleol ar ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae hefyd. Mae'r

Cyngor wedi parhau i fuddsoddi mewn mannau chwarae awyr agored a chyfleoedd mwy hygyrch mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Mae'r awdurdod yn gweithio gyda Chwarae Cymru i archwilio sut y gallai strydoedd mwy diogel annog mwy o deuluoedd i ganiatáu i blant chwarae yn yr awyr agored fel ffordd syml o gynyddu gweithgarwch dyddiol yn agos at adref.

Mae'r awdurdod hefyd yn gefnogol i'w weithlu ei hun sy'n ymwneud â Theithio Llesol gan ddefnyddio'r cynllun aberthu cyflogau i brynu beiciau.

Bu'r awdurdod yn rhan o'r grŵp llywio cenedlaethol sydd wedi arwain at gynnig Hamdden Egnïol newydd i bobl dros 60 oed ledled Cymru sy'n ategu at y buddsoddiad arall yn y cynnig Nofio Am Ddim Cenedlaethol ar gyfer y grŵp poblogaeth hwn. Bydd hyn yn cael ei lansio pan ganiateir i gyfleusterau ailagor ond bydd y gwaith o ymgysylltu ag oedolion hŷn yn dechrau cyn hynny. Mae'r rhaglen nofio am ddim i blant iau wedi'i hehangu gan ganolbwyntio ar grwpiau difreintiedig y gellid eu hystyried fel rhai sydd mewn "mwy o berygl" o fod ag arferion bywyd gwael.

Drwy ein partneriaeth â Halo Leisure mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff wedi parhau i gefnogi pobl yn rhithwir a bydd hyn yn rhan bwysig o lwybr adfer Covid 19 i bobl. Mae'r rhaglen yn cynnig cymorth ataliol lefel is i'r rhai sydd angen symud yn amlach ac mae hefyd yn darparu'r rhaglen 'Foodwise' i hyrwyddo bwyta'n iach fel rhan o ddull iachach o fyw.

Fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, cynigir llwybr cyflwr cronig llawn ar gyfer poen cefn, adsefydlu'r ysgyfaint, canser, a sefydlogrwydd osgo, a chyda rhaglenni gofal ar y cyd newydd yn cael eu comisiynu gan y bwrdd iechyd. Bydd y rhain yn ddefnyddiol pan fo mathau eraill o gefnogaeth feddygol wedi'i ohirio. Mae'r rhaglen atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff wedi treialu rhaglen adfer Covid mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2020. Rhagwelir y bydd hwn yn faes ffocws dros y flwyddyn i ddod.

Mae cynllun Mynediad at Hamdden yr awdurdod wedi sicrhau nad yw cost yn rhwystro mynediad pobl at hamdden yn y sector cyhoeddus, ac mae wedi sicrhau buddsoddiad i ymgysylltu â mwy o bobl sydd o dan anfantais i wneud am gost isel neu ddim cost, a hynny er mwyn sicrhau'r cyrhaeddiad a'r budd mwyaf posibl o wasanaethau. Mae effaith anfantais ar y gallu i fyw bywyd egnïol ac iach yn cael ei gydnabod wrth gynllunio gwasanaethau ac mae'n cynnig cyfleoedd cynaliadwy.

Mae ein partneriaeth â Halo Leisure hefyd wedi gweld datblygiad llwyfan digidol Halo yn y Cartref i gefnogi'r rhai sy'n gwarchod eu hunain i gadw'n heini neu'r rhai sy'n gyfforddus wrth reoli gweithgarwch yn y cartref. Mae gan y llwyfan digidol hwn y potensial i ddatblygu a ffrydio ystod eang o raglenni lles i gartrefi pobl. Mae gwaith wedi'i dargedu yn mynd rhagddo gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru i ddatblygu cydweithfeydd gofawyr ac i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia gan gynnwys cymorth i feithrin hyder a sgiliau digidol.

Cefnogwyd yr awdurdod gan y Gronfa Iach ac Egnïol i arwain y rhaglen Super Agers i annog mwy o weithgarwch corfforol ymhlith oedolion hŷn, gan gynnwys cymorth gartref neu'n agos i'r cartref. Mae'r rhaglen wedi'i nodi'n ddiweddar fel Esiampl Bevan. Mae rhagor o gymorth mentora cartref ac adnoddau wedi eu datblygu y gellid eu defnyddio'n fwy eang maes o law.

Mae'r awdurdod hefyd wedi bod yn chwarae rôl arweiniol ym menter Parc Rhanbarthol y Cymoedd gan annog mwy o ddefnydd o'r amgylchedd naturiol a datblygu cyfleoedd presgripsiynu cymdeithasol. Mae hyn yn rhan annatod o Bwysau Iach... Cymru Iach.

Mae'r awdurdod yn gweithredu ei raglen Love To Walk ei hun hefyd sydd wedi dod yn fwyfwy poblogaidd pan fo rheoliadau wedi caniatáu, a phan fo'n briodol iddynt gael eu harwain gan wirfoddolwyr, gallent ddod yn gynaliadwy ac ar gael am gost isel i'r cyfranogwyr. Cyn iddi gael ei gohirio, roedd gŵyl Love to Walk wedi denu diddordeb a chyfranwyr.

Drwy ein partneriaethau ag ysgolion lleol mae cynlluniau gweithredu ar waith sy'n helpu i ddatblygu lles pobl ifanc gan gynnwys lles corfforol a lles emosiynol/meddyliol. Rydym yn defnyddio pobl ifanc i fentora cyfoedion, yn defnyddio grwpiau rhwydwaith i gefnogi unigolion, ac rydym wedi datblygu dulliau e-ddysgu ar gyfer ein harweinwyr ifanc. Mae ein grŵp llysgenhadon hŷn, sydd hefyd yn derbyn cefnogaeth y gwasanaeth AYP, wedi sefydlu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo bwyta'n iach a ffyrdd iach o fyw i bobl ifanc eraill.

Mae rhaglen les newydd o'r enw Ascent wedi'i datblygu ar gyfer bechgyn a merched sy'n llai hyderus neu â lefelau gweithgarwch isel. Mae'r prosiect hybu iechyd hwn yn cael ei gynnal dros gyfnod o 39 wythnos a'i nod yw gwella ymgysylltiad cyfranogwyr.

Mae ein gwasanaeth Pobl Ifanc Egniol yn cydweithio â Phrifysgol Abertawe i ymchwilio i iechyd a lles plant 9-11 oed yn y Fwrdeistref Sirol. Mae rhaglen 'BridgeLinx' wedi arwain at gymharu Pen-y-bont ar Ogwr ag ardaloedd eraill fel rhan o raglen fwy byd-eang.

Mae chwarae gweithredol yn cael ei ddatblygu drwy ein hysgolion a hefyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chwarae Cymru. Erbyn hyn mae 24 pod gweithgaredd ar waith ac rydym wedi bod yn gweithio gyda rhai ysgolion i wneud eu tiroedd yn fwy hygyrch i'r gymuned i gefnogi ffyrdd egniol o fyw.

Mae cytundebau partneriaeth yn gweithredu gyda'n hysgolion cynradd ac uwchradd sydd wedi cael cymorth yn ystod y pandemig gydag adnoddau gan ein hadran Pobl Ifanc Egniol i gynnal a gwella lles disgyblion.

Rydym eisoes wedi gweithredu dull 'Family Active Zone' sy'n cynnwys pob agwedd ar ffordd o fyw a maeth, ac a gynhaliwyd mewn partneriaeth ag ysgolion ond a fydd ar gael ar lefel aelwydydd wrth symud ymlaen. Mae amrywiaeth o adnoddau eraill yn cael eu datblygu i gefnogi lles unigolion a grwpiau.

Drwy gydol y pandemig mae ein canolfannau cymunedol, sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr, wedi bod ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ac mewn blynyddoedd arferol byddai'r lleoliadau yn cefnogi rhaglenni rheoli pwysau a sefydliadau cysylltiedig.

Mae ein hysgolion hefyd yn cymryd rhan yng nghynllun Ysgolion Iach Cenedlaethol Cymru ac yn defnyddio'r fframwaith hwn i wella lles. Y nod fu creu rhwydwaith o ysgolion sy'n hybu iechyd ac mae bwyd a ffitrwydd yn un o'r cydrannau o fewn y saith pwnc iechyd,.

O ran arlwyio mewn ysgolion, mae CLILC yn ardystio bod pob bwydlen yn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ac ysgolion arbennig Pen-y-bont ar Ogwr yn cydymffurfio â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Safonau a Gofynion Maeth (Cymru) 2013. Dyfeisir pob bwydlen i leihau cynnwys halen, braster a siwgr i gefnogi'r agenda bwyta'n iach.

Y tu hwnt i'r uchod, mae'r awdurdod yn cymryd rhan weithredol mewn cynllunio a rhwydweithio rhanbarthol, o ran cynnal dull bwrdd iechyd o ymdrin â strategaeth Pwysau

Iach Cymru iach a'r cynllun cyflawni cysylltiedig yn ogystal â datblygu'n gallu i chwarae rhan effeithiol yn yr her bwysig hon.

Cwestiwn atodol gan y Cyngorydd Altaf Hussain (a gyflwynwyd gan y Cyngorydd Giffard yn ei absenoldeb)

Mae llawer o ardaloedd preswyl segur yn y Fwrdeistref Sirol, er enghraifft, Penyfael. Pryd ydych chi'n mynd i helpu trigolion mewn ardaloedd o'r fath ac eraill, a'u cysylltu â'n trefi gyda llwybrau cerdded a beicio Teithio Llesol.

Ymateb:

Mae gennym fuddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd ar y gweill ar hyn o bryd i gefnogi llwybrau Teithio Llesol ar draws y Fwrdeistref Sirol ac rydym wedi cynnal ymgynghoriad â Sustrac ac Aelodau ynglŷn â hyn ac rwy'n siŵr fod yr Aelodau wedi rhoi eu barn i'r ymgynghoriad hwnnw. Byddai canlyniad hyn yn cael ei ystyried, a hynny er mwyn cynllunio sut i fuddsoddi mewn Teithio Llesol a pha gamau y dylid eu cyflwyno yn y dyfodol, rhywbeth sydd wedi cael ymrwymiad buddsoddi sylweddol gan Lywodraeth Cymru o ran cynlluniau'r dyfodol.

Ail gwestiwn atodol gan y Cyngorydd Jon-Paul Blundell

A all yr Arweinydd amlinellu sut mae'r Cyngor wedi hybu bwyta'n iach gyda'u ciniawau ysgol yn ystod y pandemig.

Ymateb:

Rydym yn darparu parseli bwyd i dros 4,000 o deuluoedd bob wythnos ar gyfer y plant sy'n methu â mynychu'r ysgol, ond yn wahanol i'r prydau blasus a maethlon a chant yn yr ysgol, gartref mae'r parseli bwyd yn cynnwys ffrwythau, llysiau a phasta yn ogystal â chynnyrch iach eraill. Darparwyd cardiau rysâit hefyd er mwyn annog teuluoedd i goginio'n arloesol. Cafwyd adborth cadarnhaol i hyn. Roedd ymgynghoriad ar y parseli bwyd hyn yn parhau ac roedd y Cyngor yn aros am adborth gan rieni a'r bobl ifanc a oedd yn eu derbyn. Mae cynnig hefyd i ymestyn y cyllid ar gyfer parseli bwyd gan Lywodraeth Cymru dros gyfnodau gwyliau ysgol yn ogystal ag yn ystod y tymor yn cael ei ystyried.

Trydydd cwestiwn atodol gan y Cyngorydd Paul Davies

Ar hyn o bryd, a ydym yn darparu canllawiau ynglŷn â bwyta'n iach yn y dosbarth yn yr ysgol, hy a oes unrhyw wersi neu ganllawiau addysgol penodol yn cael eu rhoi ynglŷn â hyn yn ogystal â chanllawiau maeth, o ran y pethau gorau i'w bwyta (ac yfed).

Ymateb:

Rydym wedi gweld ffocws llawer cryfach ar sgiliau coginio ymarferol a pharatoi bwyd mewn ysgolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roeddwn yn falch iawn o weld bod gan Lywodraeth Cymru brosiect bwyd arobryn o'r enw 'The Big Box Bwyd' sy'n datblygu dealltwriaeth gynnar o ddewisiadau bwyd iach, ac yn darparu bwyd fforddiadwy am bris fforddiadwy i rieni, rhywbeth sydd fudd i deuluoedd yn y Fwrdeistref Sirol.

Y Cyngorydd Tim Thomas i'r Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

O gymharu ag awdurdodau lleol eraill, sut y mae plant mewn gofal yn perfformio yn yr ysgol, yn academiaidd ac o ran cyflawniadau eraill?

Ymateb:

Mae cymharu perfformiad plant sy'n derbyn gofal (CLA) mewn ysgolion ledled Cymru yn anodd iawn, gan fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gorau i gasglu data cenedlaethol ar gyrhaeddiad CLA ar ôl 2013-2014. Yn anffodus, ni chafwyd unrhyw ddata blynyddol cymharol ar gyfer Cymru gyfan ers hynny. Mae awdurdodau lleol wedi ceisio cynnal rhai o'r dangosyddion perfformiad blaenorol ar gyfer cyrhaeddiad CLA ar lefel leol, ond prin iawn fu'r llwyddiant gan fod y garfan newid yn aml, a llawer o blant yn profi cyfnodau byr iawn mewn gofal.

Ar gyfer 2018-2019, creodd swyddogion restr o blant a gofnodwyd fel CLA o'r system gwybodaeth reoli ysgolion (SIMS) ar y diwrnod y cymerwyd y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ym mis Ionawr 2019. Yna, bu'r swyddogion wrthi yn paru'r data yn fanwl yn erbyn y data a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar asesiadau athrawon a data arholiadau cyfnod allweddol 4 ar gyfer haf 2020. Amgaeaf y dadansoddiad hwn er gwybodaeth i chi ac i chi ei gadw. Roedd hyn yn darparu rhywfaint o ddata ar gyrhaeddiad CLA. Fodd bynnag, nid yw'r dadansoddiad hwn wedi'i ddatblygu eto gan na chasglwyd data ar gyfer 2019-2020 a bu newidiadau yn y mesurau a ddefnyddiwyd sy'n effeithio ar y gallu i gymharu.

Codwyd materion meincnodi rhanbarthol gyda Chonsortium Canolbarth y De (CSC) yn sgil colled nifer o gasgliadau/cyhoeddiadau data Llywodraeth Cymru. Mae CSC yn cynhyrchu pecyn data rhanbarthol gyda data cymharol ond y data diweddaraf ar gael yw 2019. Yn anffodus, nid oes data penodol ar gyfer CLA ar gael, ac oherwydd yr anawsterau gyda'r data hwn penderfynodd Grŵp Meincnodi CSC na fyddai gwaith ar y garfan hon a charfanau eraill yn cael ei ddatblygu.

Ar hyn o bryd mae Bwrdd Trawsnewid Digidol yr awdurdod lleol yn asesu'r achos busnes dros gaffael system gwybodaeth reoli a all roi mwy o wybodaeth i'r awdurdod lleol am y garfan CLA yn y dyfodol. Y gobaith yw y bydd yr achos busnes hwn yn llwyddiannus ac y bydd yn darparu ar gyfer amrywiaeth o welliannau i hygyrchedd data lefel disgyblion ar gyfer pob carfan wrth symud ymlaen.

Y Tîm Ymgysylltu ag Addysg yw'r pwynt cyswllt unigol ar gyfer ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill mewn perthynas ag unrhyw ddysgwyr agored i niwed yn yr ardal leol. Mae hyn yn cynnwys CLA. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gydag ysgolion a phlant gofal cymdeithasol i sicrhau bod y ddarpariaeth addysg yn diwallu anghenion dysgwyr. Mae'r tîm yn gyfrifol am gydlynw a chraffu ar gynlluniau addysg personol (PEP) sy'n cael eu gweithredu ar gyfer pob CLA.

Yn ogystal, mae'r tîm yn darparu hyfforddiant i ysgolion i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o effaith derbyn gofal ar ddatblygiad plentyn, ac y gallai effeithio ar eu dysgu neu eu hymddygiad mewn amgylchedd ysgol. Mae'r hyfforddiant hwn wedi cynnwys Cymorth Cyntaf, iechyd meddwl a dulliau o ymdrin â phrofiadau niweidiol yn ystod plentynod sy'n ystyriol o drawma.

Mae'n ofynnol i bob ysgol nodi person dynodedig i arwain ar CLA. Cyn Covid-19, cynhaliwyd digwyddiadau bob chwe mis gydag arweinwyr diogelu dynodedig neu arweinwyr CLA i archwilio ac ystyried arfer gorau o ran gwella cyrhaeddiad a phresenoldeb addysgol. Anogir ysgolion i rannu dulliau o gefnogi dysgwyr ac mae'r Tîm Ymgysylltu ag Addysg yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Mae'r berthynas â Gofal Cymdeithasol Plant yn hollbwysig o ran cymorth i'r CLA. Bydd y Tîm Ymgysylltu ag Addysg yn mynychu adolygiadau CLA (pan fydd angen gwneud

hynny) i sicrhau bod y Cynllun Addysg Personol a'r cymorth sy'n gysylltiedig ag addysg yn briodol ac o fudd i'r dysgwyr.

Darperir rhywfaint o arian i'r awdurdod lleol drwy'r Grant Datblygu Disgyblion. Defnyddir yr arian hwn i roi cymorth i ysgolion drwy hyfforddiant fel y disgrifiwyd yn gynharach, ond hefyd drwy hyfforddiant ychwanegol i ddysgwyr mewn perthynas â'u llythrennedd a'u rhifedd yn ôl yr angen.

O fewn Gofal Cymdeithasol Plant, mae'r Tîm 16+ yn cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal yn ystod cyfnod trosiannol, gan eu hannog i fod yn uchelgeisiol ac i gynllunio ar gyfer eu dyfodol. Caiff y gwaith cynllunio hwn ei gwblhau fel rhan o waith uniongyrchol gweithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol gyda phobl ifanc. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyswllt agos â thiworiaid ysgol/coleg a Gyrfa Cymru. Unwaith y cytunir ar gynllun gyda'r person ifanc, caiff hwn ei ffurfioli mewn Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal neu Adolygiad Cynllunio Llwybr os yw'r person ifanc dros 18 oed.

Mae Prosiect Dyfodol Hyderus Prifysgol Caerdydd a Champws Cyntaf ar gael i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'r rhai sy'n gadael gofal rhwng 14 a 19 oed gyda'r bwriad o godi dyheadau a hyder. Cynhelir y sesiynau'n fisol o fis Hydref i fis Ebrill yn flynyddol. Cânt eu gweinyddu ym Mhrifysgol Caerdydd ac maent yn cynnwys gwaith grŵp a sesiwn gymorth unigol a redir gan fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Nod y gweithdai yw cefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gyda'u hastudiaethau presennol yn ogystal ag unrhyw geisiadau i'r brifysgol. Mae ar gael i bob person ifanc waeth beth fo'u gallu academiaidd, gan mai'r nod hefyd yw cynyddu hyder a hunan-barch pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Yn ystod y flwyddyn academiaidd ddiwethaf, mae 3 myfyriwr o Ben-y-bont ar Ogwr wedi mynychu'r sesiynau hyn gyda staff o'r Tîm 16+ yn darparu cludiant a chymorth.

Mae Ysgol Haf Dyfodol Hyderus yn ysgol haf blynyddol sy'n ceisio codi dyheadau, neilltuo amser un-i-un gyda phobl ifanc sy'n derbyn gofal i'w mentora am gam nesaf eu bywyd academiaidd, cynnig sesiynau blasu gan ddarlithwyr/athrawon y Brifysgol, a'n rhoi cyfle i ddarganfod sut beth yw bywyd cymdeithasol prifysgolion. Mae cyfranogwyr yn treulio amser a'n aros mewn llety myfyrwyr gyda myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig presennol ac yn cael sesiynau blasu academiaidd gydag arbenigwyr ar eu meysydd dethol. Mae'r sesiynau'n cynnwys cyngor ar ysgrifennu datganiadau personol, ffug gyfweiliadau, cyllidebu a sgysiau gan wasanaethau cymorth. Mae sesiynau blasu hefyd ar gyfer cyfleoedd y tu allan i astudio, gan gynnwys cymdeithasau a chlybiau chwaraeon. Yn olaf, maent yn cael bod yn rhan o seremoni raddio ffug. Anogir ein holl bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal sy'n ystyried gwneud cais am brifysgol i fynychu.

Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Tim Thomas

Yn gyffredinol, nid yw LAC sy'n derbyn gofal yn derbyn cystal canlyniadau addysgol o gymharu â charfanau eraill, felly o ystyried hynny, a allai'r Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar gadarnhau pa Strategaethau sydd gennym ar waith i dargedu plant sy'n derbyn gofal yn benodol, fel bod eu niferoedd o ran NEETS yn gostwng.

Ymateb:

Rhywbeth rydym wedi'i wneud yn ddiweddar yw dechrau defnyddio "model sy'n Seiliedig ar Ganlyniadau", a lansiwyd ychydig cyn y Nadolig, a'n hathroniaeth yw meithrin ymdeimlad o hunangred ymysg y bobl ifanc hyn cyn gynted ag sy'n bosibl. Yn aml, mae'r plant hyn wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentynod, ac felly roedd eu gosod nhw'n ganolbwynt i'w cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a chaniatáu iddynt osod eu hagenda eu hunain, a'u cefnogi mewn ffordd gyfannol a therapiwtig yn ddechrau pwysig

iawn i'r broses. Canlyniad y dull hwn, gobeithio, yw y byddant wedi'u hysbrydoli erbyn iddynt gyrraedd 16 oed a chyda digon o hyder o ran cyflawniadau academiaidd. Roedd y broses hon ychydig yn anos na'r dull blaenorol a oedd ar waith, fodd bynnag, credid y byddai'r newid yn arwain at roi mwy o gefnogaeth, a hynny mewn modd mwy effeithiol, i ragolygon academiaidd ein pobl ifanc yn y dyfodol. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio y gellid cael rhagor o wybodaeth am yr uchod gan yr Adran Addysg y tu allan i'r cyfarfod, pe bai'r Aelod yn dymuno derbyn hyn. Fel rhieni corfforaethol, mae Aelodau a Swyddogion yn gwneud eu gorau i gefnogi plant yn yr un modd ag y byddent yn cael eu cefnogi gan eu rhieni naturiol o ran eu hanghenion a'u gofynion addysg, hyd at y cam lle maent yn mynd i addysg uwch, y Brifysgol er enghraifft.

Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Jane Gebbie

A allech fod yn fwy penodol, gan fod y rhan fwyaf o'n plant sy'n derbyn gofal yn profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac, fel y gwyddom yn iawn, mae hyn yn aml yn rhwystr i'w cyflawniadau academiaidd a phersonol. Felly, sut yr ydym ni fel rhieni corfforaethol, yn eu hannog i sicrhau canlyniadau bywyd mwy cadarnhaol.

Ymateb:

Atebodd yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, ei fod yn ymwneud â rhoi llais y PDG yn gyntaf, wedi'u blethu â dull mwy therapiwtig a chyfannol o ran eu haddysg. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb sylfaenol i sicrhau ei fod yn darparu'r amgylchedd teuluol cywir i'n plant a'n pobl ifanc, felly mae sicrwydd bod ganddynt y gofal a'r cymorth cywir ar eu cyfer, er mwyn iddynt gael bywyd hapus a chytbwys. Mae'r camau a gymerir er mwyn cyflawni hyn yn cynnwys recriwtio Gofalwyr Maeth â chymwysterau uchel. Yng nghyfarfod y Cabinet ddoe, roedd adroddiad wedi'i gymeradwyo ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen, nid yn unig o ran sut i recriwtio'r gweithwyr proffesiynol hyn ond hefyd i sefydlu ffyrdd o'u cadw. Roedd hefyd yn bwysig bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi'n effeithiol ac yn dda gartref ac yn yr ysgol. Roedd y Cyngor wedi buddsoddi mewn Teuluoedd Maeth ar gyfer y plant hynny nad oeddent yn gallu aros gyda'u rhieni neu Ofalwr(wyr) Maeth, yn ogystal â'i ddarpariaeth breswyl ei hun. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cyllid, er mwyn cynorthwyo cyfleoedd dysgu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ystod y pandemig yn ogystal ag ar gyfer tymor hwy, er mwyn iddynt allu cefnogi canlyniadau plant sy'n derbyn gofal hyd at yr amser y maent yn dechrau addysg uwch. Sicrhodd yr Aelodau fod y Cyngor yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn unol â hynny drwy ei adrannau Earl Help a Gwasanaethau Plant. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys cydweithio yn ogystal â sicrhau bod unrhyw ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd gan y Cyngor dîm Ymgysylltu ag Addysg, a oedd yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd statudol mewn perthynas ag anghenion addysg plant mewn ysgolion. Mae'r Cyngor hefyd wedi rhoi cyngor i'r ysgol o ran y ffordd orau o ddefnyddio Grantiau Datblygu Disgyblion fel mecanwaith cymorth i'r broses ddysgu. Ar hyn o bryd roedd 32 o'r plant sy'n derbyn gofal yn cael hyfforddiant addysgu ychwanegol, er mwyn helpu i gau'r bwlch rhyngddynt hwy a rhai dysgwyr eraill. Daeth i'r casgliad drwy ddweud bod Estyn, 4 blynedd yn ôl, wedi nodi arfer rhagorol yn Ysgol Brynteg ac Ysgol Gynradd Pen-y-bont, am y cymorth a roesant i blant sy'n derbyn gofal.

Trydydd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Stuart Baldwin

Pa waith yr oedd yr Awdurdod yn ei wneud i annog Gofalwyr Maeth o gefndiroedd mwy amrywiol, megis, er enghraifft cymunedau LGBTQ Plus.

Ymateb:

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, y bu ymgyrch yr wythnos diwethaf i annog pobl o gymunedau LGBTQ Plus i ystyried bod yn Ofalwyr Maeth. Cafwyd enghreifftiau eraill o annog unigolion (gan gynnwys o gefndiroedd amrywiol), i ystyried ymrwymo i rôl o'r fath, ac roedd hi'n hapus i rannu'r rhain gydag unrhyw Aelodau a allai fod â diddordeb mewn cael y wybodaeth hon. Roedd y Cabinet hefyd wedi ystyried adroddiad yn ei gyfarfod ddoe, o'r enw 'Recriwtio Maethu – Gofal Cymdeithasol i Blant,' a roddodd gymeradwyaeth i gysoni recriwtio maethu ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, a Merthyr Tudful, ac ymdrin â meithrin ymholiadau recriwtio, prosesu ceisiadau, yn ogystal â chefnogi Darpar Ofalwyr Maeth drwy'r broses o ddod yn Ofalwr Maeth.

Y Cynghorydd Matthew Voisey i'r Arweinydd

pam mae'r weinyddiaeth Lafur hon yn gwahaniaethu yn erbyn rhai gweithwyr allweddol, drwy beidio â chaniatáu i'r rheini yn y sector preifat gael mynediad at ddarpariaethau gofal plant yn ystod y cyfyngiadau symud presennol hyn, o ystyried mai'r rhain yw'r union weithwyr y mae'r blaid Lafur yn honni eu bod yn gofalu amdanynt, gweithwyr rhan-amser a'r rhai sydd ar isafswm cyflog neu'n agos iddo?

Ymateb:

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithwyr hanfodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried ei restr gweithwyr hanfodol. Fodd bynnag, mae'n dweud mai mater i awdurdodau lleol unigol ydyw, yn seiliedig ar eu sefyllfa bresennol i benderfynu pwy sy'n gymwys. O ystyried yr argyfwng iechyd cyhoeddus yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gwnaethom y penderfyniad anodd i gyfyngu ein cymhwysedd i alwedigaethau 'golau glas' traddodiadol fel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), addysg, swyddogion carchardai, a gweithwyr gofal cymdeithasol (yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat).

Gwnaed y penderfyniad hwn er mwyn sicrhau bod gan ysgolion ddigon o gapasiti i ddiogelu iechyd a lles y disgyblion a'r staff, heb beryglu eu gallu i ddarparu dysgu cyfunol o ansawdd uchel. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid cyflwyno allweddol (gwrando ar eu pryderon) i ddatblygu amgylcheddau dysgu/gweithio effeithiol a diogel i COVID. Er y cydnabyddir yn llawn bod hyn wedi achosi rhai anawsterau i rai teuluoedd, mae'r strategaeth wedi helpu i leihau cyfraddau trosglwyddo'r firws yn y gymuned wrth gynnal safonau addysgol mewn ysgolion.

Rydym hefyd wedi gweithio'n galed i gefnogi teuluoedd lle nad oedd plant wedi sicrhau darpariaeth ar safle'r ysgol. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r Tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lleoliadau gofal plant preifat, cefnogi teuluoedd/neiniau a theidiau, a chyfathrebu â chyflogwyr. Mae cydweithwyr yn y blynnyddoedd cynnar wedi parhau i ddarparu'r rhaglen Dechrau'n Deg ac maent hefyd wedi cefnogi lleoliadau nas cynhelir i ddarparu gofal plant drwy gydol y pandemig (gyda chynghor, arweiniad a, lle y bo'n gymwys, cyllid). Darparwyd cymorth hefyd gan aelodau'r Gwasanaeth Cynhwysiad, sy'n cynnig archwiliadau ar-lein gyda disgyblion y nodwyd eu bod yn agored i niwed a/neu sydd angen cymorth dysgu ychwanegol ac ar gyfer teuluoedd sydd wedi bod yn ei chael yn anodd rheoli ymddygiad eu plant. Rhoddwyd blaenoriaeth i gymorth plant sy'n derbyn gofal, plant ar y gofrestr amddiffyn plant, a phlant ag anableddau cymhleth ac anghenion meddygol. Mae ysgolion hefyd wedi cynnig cefnogaeth allgymorth drwy weithio amlasiantaethol. Mae hyn wedi cynnwys ymweliadau cartref gan y timau ac archwiliadau rheolaidd i'r rhai mwyaf agored i niwed.

Ar hyn o bryd mae staff ysgol yn cynnig darpariaeth ar y safle ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol, cymorth uniongyrchol oddi ar y safle i

ddysgwyr sy'n agored i niwed, a chyfleoedd dysgu o bell i bob dysgwr. Felly, mae'n anochel y bydd unrhyw gynnydd yn y ddarpariaeth ar y safle yn cael effaith andwyol ar allu'r ysgol i ddarparu dysgu ar-lein o ansawdd uchel a chyfyngu ar allu ysgol i ddarparu cymorth oddi ar y safle i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Mae pob pennaeth wedi dweud ei bod yn anodd iawn cael digon o staff ar y safle i oruchwylio'r disgyblion hynny sy'n mynychu'r ysgol ynghyd â sicrhau fod ganddynt ddigon o gapasiti staffio i ddarparu dysgu cyfunol ar gyfer y disgyblion hynny sydd oddi ar y safle.

Rydym mewn sefyllfa anodd iawn o fod angen cadw'r niferoedd mor isel â phosibl er mwyn lleihau cyfleoedd trosglwyddo yn wyneb pwysau cynyddol gan rieni/gofalwyr i gynnig lleoedd i'w plant. Rydym yn cydnabod bod y sefyllfa bresennol yn creu anawsterau i rieni/gofalwyr sydd hefyd yn weithwyr allweddol sy'n gorfod mynd i'r gwaith ond nad ydynt yn gymwys yn unol â meini prawf cytûn CBSP a heb unrhyw ofal plant arall ar gael. Yn naturiol, rydym yn awyddus i ehangu'r ddarpariaeth ar y safle pan/lle mae'n ddiogel gwneud hynny i ddiwallu anghenion rhieni/gofalwyr sydd angen y cymorth hwn.

Wrth i'r cyfraddau trosglwyddo ostwng, rydym wedi gwneud cynlluniau i ehangu'r cynnig lleol i ddiwallu anghenion mwy o rieni a gofalwyr drwy barhau i ddarparu amgylchedd addysgu a dysgu diogel i ddisgyblion a staff yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg ar-lein diweddar. Ar 5 Chwefror, lansiwyd arolwg ar-lein gennym i fesur y galw am ddarpariaeth ar y safle. Dangosodd canlyniadau'r arolwg fod angen 1797 o leoedd ychwanegol ar y safle. O'r rhain, roedd 1405 yn cyfeirio at ddarpariaeth ar y safle ar gyfer dysgwyr oedran ysgol gynradd tra bod 392 yn cyfeirio at ddarpariaeth ar y safle ar gyfer dysgwyr oedran ysgol uwchradd.

Pan lansiwyd yr arolwg ar-lein, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg hefyd y byddai pob dysgwr cyfnod sylfaen (h.y. ym Mhen-y-bont ar Ogwr, pob plentyn tair i saith oed sy'n gymwys i gael lle mewn ysgol) yn dychwelyd i'r ysgol yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 22 Chwefror. Yn ôl y disgwyl, roedd llawer o'r galw am leoedd ar y safle ar gyfer dysgwyr oedran ysgol gynradd yn gysylltiedig â phlant iau. O ganlyniad, drwy ddefnyddio amrywiaeth o hidlyddion (e.e. drwy ofyn i rieni/gofalwyr a fyddent yn defnyddio'r ddarpariaeth ychwanegol, a fyddent yn gallu gofalu am eu plentyn/plant gartref, a yw eu plentyn yn mynychu lleoliad cyfnod sylfaen, a/neu a ydynt mewn gwirionedd yn ystyried eu hunain yn weithiwr hanfodol yn seiliedig ar feini prawf cymhwysedd Llywodraeth Cymru), mae'r galw gwirioneddol am ddarpariaeth ar y safle yn is. Yn y senario hwn, pe baem ni'n ehangu ein meini prawf cymhwysedd i gynnwys pob galwedigaeth ar restr Llywodraeth Cymru, byddai'r galw dangosol am leoedd yn golygu bod angen 163 lle (cyfnod allweddol 2) ychwanegol ar y safle yn y sector ysgolion cynradd a byddai angen 39 lle (Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8) ychwanegol yn y sector ysgolion uwchradd.

Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd yn dilyn yr egwyl hanner tymor, yr adborth gan ysgolion yw y byddai unrhyw gynnydd yn y ddarpariaeth ar y safle ar hyn o bryd yn achosi anhawster sylweddol. Er enghraifft, oherwydd cyngor diweddar gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynnal 'swigod' dosbarth/grŵp blwyddyn, efallai y bydd cynnydd o ddim ond pedwar dysgwr mewn ysgol gynradd yn arwain ar angen wyth aelod o staff ychwanegol (h.y. un athro ac un cynorthwyydd dysgu fesul dosbarth) fod ar y safle. Mae'n anochel y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar allu'r ysgol i ddarparu dysgu ar-lein o ansawdd uchel. O ganlyniad, mae hyn wedi effeithio ar ein gallu i ddod â mwy o blant gweithwyr hanfodol yn ôl yn gynt, gan y bydd llai o gapasiti i ddarparu ar gyfer gofynion gofal plant ychwanegol. Y mwyaf o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, y mwyaf o staff ysgol fydd yn ofynnol i oruchwylio/addysgu a bydd hyn yn lleihau'r gallu i staff allu cynnig cyfleoedd dysgu cyfunol o ansawdd uchel i'r disgyblion nad ydynt ar y safle.

I gloi, fodd bynnag, mae'n bleser gennyf hysbysu'r aelodau y bydd darpariaeth yn yr ysgol ar gael ar y safle i blant gweithwyr hanfodol (fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru) o oed meithrinfa hyd at Flwyddyn 8 (cynhwysol) o ddydd Llun 15 Mawrth.

Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Matthew Voisey (a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Walters yn ei absenoldeb)

Er ei bod yn dda gwybod y bydd gan blant gweithwyr allweddol hyd at Flwyddyn 8 le mewn ysgolion o ddydd Llun nesaf ymlaen, hir bu'r disgwyl amdano. Mae'r gweithwyr allweddol sydd ddim yn rhai 'golau glas' wedi ein gwasanaethu i gyd drwy'r pandemig ac yn aml yn mynd yn angof, neu'n dioddef rhwystredigaethau pan oedd prinder bwyd yn gynharach yn y pandemig. Rwy'n gwerthfawrogi popeth y maent wedi'i wneud i'r gweddill ohonom. Mae set arall o weithwyr allweddol na chafodd ddarpariaeth i'w plant hefyd, sef y gweithwyr hynny o'r Lluoedd Arfog, a gafodd eu heithrio o'r rhestr o'r cychwyn cyntaf, ac roedd llawer o'r bobl hyn ar Hysbysiadau Symud 24 awr. Sut yr oedd y gwaharddiad hwn yn cyd-fynd â'r Cyngor yn llofnodi Cyfamodau'r Lluoedd Arfog. Heb gymorth y Lluoedd Arfog yn ystod y pandemig, ni fyddai llawer o'r bwyd a chyflenwadau eraill wedi cyrraedd y rhai yr oedd eu hangen. Yr oeddent yn awr yn helpu i gyflwyno'r brechlyn, a heb eu cefnogaeth yma ni fyddai Cymru wedi symud llwyddo cystal gyda'i rhaglen frechu.

Ymateb:

Wrth gwrs, rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud gan weithwyr hanfodol a gweithwyr allweddol drwy gydol y pandemig. Yr anhawster oedd gallu ein hysgolion i wneud lle i'r disgyblion, mae pob un o'n Penaethiaid wedi bod yn bryderus ynghylch y prinder lle a staff mewn ysgolion sydd eu hangen, a hynny er mwyn darparu ar gyfer holl blant yr holl weithwyr allweddol/critigol a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y diffiniad ehangach hwnnw. Yr ydym wrth gwrs yn mynd i weld holl ddisgyblion yr Ysgol Gynradd yn ôl mewn ysgolion yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf a bydd hynny'n mynd i'r afael â'r mater â phlant iau yn uniongyrchol. Gwnaed y penderfyniad hwn yn dilyn ymgynghoriad cynhwysfawr ac ymarfer ymgysylltu â theuluoedd, h.y. hyd yn oed pe na bai ysgolion wedi'u hailagor i bob disgybl oedran cynradd, roeddem wedi penderfynu ehangu'r cymhwysedd hwnnw, ar ôl sefydlu bod capasiti yn yr ysgolion, i letya plant gweithwyr allweddol, gan gynnwys personél y Lluoedd Arfog/Gwasanaeth, ac ati. Roedd y personél hwn wedi bod yn wych yn ystod y pandemig a thu hwnt. Fodd bynnag, nid wyf wedi derbyn unrhyw enghreifftiau lle mae'r uchod wedi arwain at broblem. Os bu rhai ac os cânt eu codi gyda mi, byddaf yn mynd i'r afael â hwy'n gyflym. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau yn ei rôl fel Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog dros yr Awdurdod, fod yr uchod yn tynnu sylw at absenoldeb amlwg o ran plant y rhai sy'n gwasanaethu'r Lluoedd Arfog. Y rheswm am hyn oedd nad oedd mecanwaith o fewn ysgolion i adeiladu cofrestr o ddisgyblion yno, gan gadarnhau eu bod yn blant i rieni a oedd yn y Lluoedd Arfog. Dylai fod yn ofynnol i ni gadw cofrestr o'r fath mewn ysgolion at y diben hwn, er mwyn iddi fod yn haws iddynt dynnu sylw'r Adran Addysg/Aelodau ehangach y Cyngor/Cabinet at hyn. Fodd bynnag, hyd y gwn i, nid ydym wedi cael unrhyw sylwadau, fel y dywedodd yr Arweinydd, gan unrhyw aelodau o'r Lluoedd Arfog na'r sefydliad ei hun ynglŷn â phlant eu haelodau yn hyn o beth. Felly mae'n anodd i ni nodi lle'r oedd yr angen (mewn ysgolion).

Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Bridie Sedgebeer

Yng nghwestiwn gwreiddiol y Cynghorydd Voisey, mae'n cyfeirio at yr isafswm cyflog. O ran hyn, dros y blynyddoedd diwethaf, y Blaid Lafur a dim ond y blaid honno a safodd dros weithwyr allweddol a theuluoedd sy'n gweithio, a'r Blaid Lafur a ymgyrchodd dros yr isafswm cyflog a'i gyflwyno, rhywbeth a wrthwynebwyd gan y Blaid Geidwadol. Felly pam eu bod bellach yn amddiffyn gweithwyr allweddol a'u teuluoedd?

Ymateb:

Mae hyn yn gywir, gwrthwynebwyd yr isafswm cyflog cenedlaethol gan y Ceidwadwyr, ond rwy'n falch o ddweud y bu'r her honno yn aflwyddiannus a bod yr isafswm cyflog bellach wedi'i ddiogelu gan y gyfraith.

Trydydd cwestiwn atodol gan y Cyngorydd Jane Gebbie

A fydddech o'r farn bod ein Llywodraeth Lafur yng Nghymru wedi bod yn llawer mwy llwyddiannus a rhagweithiol wrth reoli eu cyllidebau Canlyniadol i ddiogelu gweithwyr allweddol a'r cyhoedd, na Llywodraeth y DU. Yng Nghymru, rhoddwyd system 'Profi ac Olrhain' ar waith a oedd wedi'i strwythuro yn y fath fodd fel ei bod yn effeithiol ac yn gost-effeithiol, gan iddi gael ei threfnu yn bennaf gan staff yn y GIG a gweithwyr llywodraeth leol, a hynny ar incwm isel i gymedrol. I'r gwrthwyneb, roedd y Llywodraeth Geidwadol wedi ymgymryd â'r un prosiect drwy gyflogi Ymgynghorwyr â chyflog uchel ar gost o £22m, a fu'n llawer llai llwyddiannus.

Ymateb:

Mae gweithwyr Gofal Critigol wedi bod ar reng flaen argyfwng Covid, ac ni allaf ddiolch digon iddynt am eu gwaith di-baid, gwaith a wnaed yn wyneb pwysau eithafol a thrawma, gyda marwolaethau anffodus o ganlyniad i'r feirws. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi talu £500 yn ychwanegol i'w Gweithwyr Gofal fel cydnabyddiaeth o'r gwaith amhrisiadwy y maent wedi'i ddarparu trwy'r cyfnod anodd hwn i gefnogi'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed o fewn ein cymdeithas.

523. EITEMAU BRYD

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:02